RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
99/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
31/10/2023

# Gwerthusiad o'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren

# Adroddiad Terfynol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.

This document is also available in Welsh.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-912-9

Gwerthusiad o’r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren
Adroddiad Terfynol

Awduron: Ioan Teifi, Endaf Griffiths

Adroddiad Ymchwil Llawn: Teifi, I; Griffiths, E. (2023). *Gwerthusiad o’r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren Adroddiad Terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 99/2023.

Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-pren

Y barnau a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barnau’r ymchwilydd ac nid ydynt o anghenraid yn cyfateb â barnau Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Ymchwilio, Monitro a Gwerthuso
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Gwerthuso.Ymchwil@llyw.cymru

## Tabl y cynnwys


1. Cyflwyniad ....................................................................... 4
2. Y Fethodoleg ....................................................................... 16
3. Adolygiad o’r cynnydd yn erbyn targedau ....................................................................... 23
4. Proffil y prosiectau a’r busnesau a gefnogwyd ....................................................................... 32
5. Canfyddiadau allweddol am gynllun a chyflawniad CBBP ....................................................................... 40
6. Canfyddiadau allweddol am ganlyniadau ac effiethiau ....................................................................... 51
7. Casgliadau ac argymhellion ....................................................................... 71

Atodiad A: Cwestiynau Cyfweliad y Tîm Cyflawni ....................................................................... 75
Atodiad B: Cwestiynau Cyfweliad y Rhanddeiliaid Allanol ....................................................................... 77
Atodiad C: Cwestiynau’r Arolwg Buddiolwyr ....................................................................... 79
Atodiad D: Cwestiynau Arolwg i Rai nad Ydynt yn Fuddiolwyr (Ffôn) ....................................................................... 87
Atodiad E: Cwestiynau Arolwg i Rai nad Ydynt yn Fuddiolwyr (Ar-lein) ....................................................................... 91
Atodiad F: Damcaniaeth Newid ar gyfer y CBBP ....................................................................... 91
Atodiad G: Y Fframwaith Gwerthuso ar gyfer y CBBP ....................................................................... 93

**Rhestr y tablau**

Tabl 1.1: Amcangyfrifon o'r prisiau cyfredol (miliynau o bunnoedd) ar gyfer 'Coedwigaeth a thorri a thrin coed' ........ 8
Tabl 2.1: Ffynonellau data a ddefnyddiwyd i ymdrin â'r cwestiynau gwerthuso ........ 19
Tabl 3.1: Cyfradd llwyddiant y ceisiadau grant ar bob cam o'r broses ymgeisio ........ 23
Tabl 3.2: Gwerth y cyllid grant y gwnaed cais amdano ac a oedd yn llwyddiannus ar y cam DoDd 25
Tabl 3.3: Gwerth y cyllid grant a ddyrannwyd ar y cam ymgeisio llawn (cam 2) ac a'i hawliwyd hyd yn hyn ........ 26
Tabl 3.4: Cyflawniad yn erbyn y targedau DPA (dadansoddiad lefel y cynllun) ........ 27
Tabl 3.5: Cyflawniad yn erbyn targedau DPA (dadansoddiad ar lefel y prosiect) ........ 30
Tabl 4.1: Trosiant busnesau cyn derbyn/gwneud cais am gymorth CBBP ........ 33
Tabl 4.2: Cynaliadwyedd busnesau a'u huchelgeisiau i dyfu ........ 34
Tabl 5.1: Yr amser a gymerwyd i gymeradwyo prosiectau o ddyddiad cyflwyno'r DoDd ........ 46

**Rhestr y ffigurau**

Ffigur 4.1: Mathau o fusnesau sy'n derbyn ac yn gwneud cais am gefnogaeth ........ 32
Ffigur 5.1: Boddhad gyda'r broses ymgeisio ........ 41
Ffigur 6.1: Canlyniadau a adroddwyd gan fuddiolwyr (cwestiwn 'ticiwch bob un sy'n berthnasol) ........ 55

**Geirfa**

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| ThD | Thema Drawsbynciol |
| Confor | Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd |
| CE | Comisiwn Ewropeaidd |
| LlAE | Llys Archwilwyr Ewrop |
| AEE | Asesiad o Effeithiau Economaidd |
| DoDd | Datganiad o Ddiddordeb |
| UE | Undeb Ewropeaidd |
| CBBB | Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd |
| CADC | Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth |
| GYG | Gwerth Ychwanegol Gros |
| DPA | Dangosydd Perfformiad Allweddol |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| SYG | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| CC | Cysylltiadau Cyhoeddus |
| RhDG | Rhaglen Datblygu Gwledig |
| AoF | Adenillion o Fuddsoddi |
| TGC | Taliadau Gwledig Cymru |
| DDS | Dosbarthiad Diwydiannol Safonol |
| BBaCh | Busnes Bach a Chanolig |
| CBBP | Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren |
| GBC | Y Grant Buddsoddi mewn Coetir |
| DU | Y Deyrnas Unedig |
| GaA | Gwerth am Arian |
| LlC | Llywodraeth Cymru |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren (2014–2020) (CBBP) yn gynllun grant cyfalaf £9m sydd ar gael i berchenogion meithrinfeydd coed a choedwigoedd preifat, awdurdodau lleol, neu berchenogion coedwigoedd sector cyhoeddus eraill a mentrau bach a chanolig (BBaCh)[1] sy'n gweithio mewn gweithgareddau plannu a rheoli coedwigoedd, cynaeafu coed a/neu brosesu coed. Ariennir y cynllun drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG) 2014-2020 ac mae'n dilyn cynlluniau cymorth cyfalaf eraill ar gyfer y diwydiant pren a ariannwyd o dan raglenni blaenorol. Mae fersiwn presennol y cynllun wedi bod yn weithredol ers misoedd cynnar 2016 a bydd yn dod i ben ym mis Mehefin 2023. Yn benodol, mae'r cynllun yn eistedd o dan Fesur 8.6 y RhDG 8.6 – Buddsoddiadau mewn datblygu ardaloedd coedwig a gwella hyfywedd coedwigoedd (Erthyglau 21-26).

1.2 Mae Llywodraeth Cymru (LlC) (y corff cyflawni) wedi comisiynu Wavehill i ddarparu asesiad annibynnol o weithrediad ac effaith y cynllun. Wrth i gyllido RhDG ddod i ben yng Nghymru, mae hwn yn amser addas i ystyried y gwerth a gynhyrchwyd gan y cynllun. Yn ogystal, rhoddwyd y dasg i'r gwerthusiad o ganfod pa wersi a ddysgwyd ac i wneud argymhellion wedi eu seilio ar dystiolaeth a fydd yn hysbysu penderfyniadau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol mewn perthynas â buddsoddiadau sy'n cefnogi'r diwydiant pren yng Nghymru.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi canfyddiadau'r gwerthusiad yn y penodau a ganlyn.

- Mae Pennod 2 yn amlinellu'r dull methodolegol a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn.
- Mae Pennod 3 yn adolygu llwyddiant y cynllun yn erbyn ei dargedau cyflawni, sef y prif ddull o fesur y perfformiad.
- Mae Pennod 4 yn crynhoi'r mathau o fusnesau a phrosiectau a gefnogwyd er mwyn rhoi'r canfyddiadau yn eu cyd-destun.

[1] Mae BBaCh yn fenter sy'n cyflogi llai na 250 o weithwyr cyflogedig (ar sail niferoedd cyfwerth ag amser llawn) ac sydd â throsiant blynyddol nad yw'n fwy na 50 miliwn ewro a/neu gyfanswm mantolen flynyddol nad yw'n fwy na 43 miliwn ewro. Mae BBaCh yn cynnwys tri is-gategori o fentrau: mae microfentrau yn cyflogi llai na 10 o weithwyr cyflogedig, mae gan fentrau bach lai na 50 o weithwyr cyflogedig, ac mae gan fentrau maint canolig lai na 250 o weithwyr cyflogedig.

- Mae Pennod 5 yn asesu effeithiolrwydd dyluniad a chyflawniad y cynllun.
- Mae Pennod 6 yn rhoi cyfrif manwl o'r canlyniadau a'r effeithiau a gynhyrchwyd gan y cynllun.
- Mae Pennod 7 yn cloi'r adroddiad gyda chyfres o argymhellion.

1.4 Rydym hefyd wedi cynnwys yr atodiadau a ganlyn:

- Atodiad A: Cwestiynau Cyfweliad y Tîm Cyflawni
- Atodiad B: Cwestiynau Cyfweliad y Rhanddeiliaid Allanol
- Atodiad C: Cwestiynau'r Arolwg Buddiolwyr
- Atodiad D: Cwestiynau Arolwg i Rai nad Ydynt yn Fuddiolwyr (Ffôn)
- Atodiad E: Cwestiynau Arolwg i Rai nad Ydynt yn Fuddiolwyr (Ar-lein)
- Atodiad F: Damcaniaeth Newid ar gyfer CBBP
- Atodiad G: Fframwaith Gwerthuso ar gyfer CBBP.

1.5 Rydym yn cychwyn yr adroddiad drwy ystyried y cyd-destun ehangach mewn perthynas â'r diwydiant pren yng Nghymru a pham fod angen y cynllun hwn, cyn archwilio dyluniad y CBBP yn fanylach ac, yn olaf, amlinellu nodau ac amcanion y gwerthusiad.

**Y diwydiant pren yng Nghymru**

1.6 Mae gan goedwigoedd swyddogaethau niferus ac maent yn ateb dibenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Maen nhw'n cynnig cynefinoedd i anifeiliaid a phlanhigion ac yn gwneud gwaith pwysig o ran lliniaru'r newid hinsawdd a gwasanaethau amgylcheddol eraill. Maen nhw hefyd yn cynnig buddion cymdeithasol eang, yn cynnwys iechyd a lles, gweithgareddau hamdden a thwristiaeth. Mae pwysigrwydd coedwigoedd o ran eu hagweddau cymdeithasol-economaidd yn uchel ond nid yw hyn yn cael ei werthfawrogi cymaint ag y dylai'n aml iawn. Maen nhw'n cyfrannu at ddatblygiad gwledig ac yn darparu tua 3 miliwn o swyddi ar draws yr Undeb Ewropeaidd (UE), a phren yw prif ffynhonnell y refeniw

ariannol o goedwigoedd[2]. Yn ogystal, ystyrir bod pren yn ffynhonnell bwysig o ddeunydd crai i'r diwydiannau datblygol hynny sydd â seiliau biolegol.

1.7 Mae gan yr Undeb Ewropeaidd bron i 180 miliwn hectar o goedwigoedd a thir coediog arall, yn gorchuddio 45 y cant o arwynebedd cyfan ei dir. Rhwng 1990 a 2020, yn ôl Eurostat, cynyddodd arwynebedd coedwigoedd yr UE o 10.2 miliwn hectar. Mae endidau preifat yn berchen ar 60 y cant o goedwigoedd yr UE, ac yn 2017 roedd allbwn gros y cynhyrchiad coedwigaeth (yn cynnwys gweithgareddau torri a thrin coed) yn fwy na €55bn[3].

1.8 Mae perchenogaeth coetiroedd, yn ogystal â gallu'r perchenogion i reoli coedwigoedd yn gynaliadwy, yn ffactor allweddol wrth benderfynu faint o werth economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a gynhyrchir. Mae adroddiadau eilflwydd 'Dangosyddion Coetiroedd i Gymru' yn darparu gwybodaeth allweddol am broffil y sector pren yng Nghymru. Mae'r adroddiadau'n datgelu brasamcan, ar ddechrau cyfnod rhaglen y RhDG 2014-2020, bod gan Gymru gyfanswm o 306,000ha o goetiroedd, a bod 117,000ha o'r rhain yn eiddo i Lywodraeth Cymru ac yn cael eu rheoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC), bod 86,000–110,000ha yn cael eu rheoli gan y sector preifat, ac nad oedd 79,000-104,000ha, i roi brasamcan, o dan unrhyw fath o drefniant rheoli ffurfiol[4]. Tynnodd swyddogion Llywodraeth Cymru sylw at y ffaith bod y gyfran olaf yma'n cynnwys ardaloedd o goetir bach fel arfer wedi eu lleoli ar ffermydd nad ydynt yn aml yn cynhyrchu unrhyw werth masnachol ac sy'n anodd mynd i mewn iddynt yn aml iawn am resymau fel llethrau serth neu'r angen am beiriannau na fydd yn creu gormod o effaith. Felly, mae'n ffactor cyfyngu ar y gwerth posibl y gellid ei sicrhau gan goetiroedd Cymru.

1.9 Mae adroddiad Llywodraeth Cymru am yr RhDG (2014-2020)[5] yn rhoi rhagor o fanylion am gyfansoddiad y sector. Mae'n amcangyfrif bod oddeutu 40 y cant o goetiroedd yng Nghymru heb eu rheoli'n ddigonol, ac yn galw am fecanwaith i ddechrau sicrhau cynhyrchiad o'r coetir hwn, gydag "angen clir i integreiddio'r sectorau fferm a choedwigaeth yn well; yn aml iawn mae angen gwneud gwaith

[2] Y Comisiwn Ewropeaidd, A new UE Forest Strategy: for forests and the forest-based sector, Medi 2013.
[3] Llys Archwilwyr Ewrop, EU funding for biodiversity and climate change in UE forests, 2021.
[4] Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, 'United Kingdom - Rural Development Programme (Regional) – Wales', Mawrth 2019.
[5] Ibid.

graddfa fach a drud ar goetiroedd ffermydd, ac mae'r marchnadoedd lleol yn gyfyngedig". Yn ôl yr adroddiad hwn, nid oes cydnabyddiaeth eang i werth posibl y pren, a dyma pam nad yw'r coetiroedd hyn yn cael eu rheoli'n dda yn aml iawn ar gyfer cynhyrchiad pren cynaliadwy.

1.10 Mae'r rhan fwyaf o'r cwmnïau prosesu pren yng Nghymru'n fusnesau bach a chanolig ac, yn aml iawn, maen nhw'n fusnesau teulu sydd wedi eu sefydlu ers 21 mlynedd ar gyfartaledd. Mae'r hanes hir hwn yn golygu bod y cysylltiadau cadwyn gyflenwi wedi datblygu'n dda o'r tyfwr hyd at y proseswr. Ychydig iawn o bresenoldeb sydd gan y mwyafrif o'r busnesau hyn, os oes ganddynt bresenoldeb o gwbl, mewn marchnadoedd y tu allan i Gymru. Yn ôl tîm y prosiect, yn ogystal â swyddogion o Lywodraeth Cymru, os yw'r sector coedwigaeth yng Nghymru'n mynd i dyfu a chreu gwerth yna mae angen hyrwyddo'r farchnad allanol, yn enwedig mewn perthynas â marchnata yn Lloegr.

1.11 Mewn sector sydd wedi ei ddominyddu i raddau mawr gan fusnesau bach a chanolig (BBaCh), dim ond nifer fechan o gwmnïau prosesu pren mawr sydd wedi eu seilio yng Nghymru (yn ôl swyddogion Llywodraeth Cymru). Mae'r sefydliadau hyn yn tynnu eu defnydd o leoedd ar draws y Deyrnas Unedig, ac mae hyn o bosib yn golygu bod cyfle i gadw mwy o werth y gadwyn gyflenwi y tu mewn i ffiniau Cymru. Yn 2017, gwerth ychwanegol gros (GYG) cyfan y sector coedwigaeth yng Nghymru oedd £665m ac amcangyfrifiwyd ei fod yn cefnogi rhwng 10,300 a 11,000 o swyddi, mewn ardaloedd gwledig gan fwyaf, lle mae cyfleoedd cyflogaeth yn gyfyngedig[6]. Mae mwyafrif y swyddi hyn yn y sector melin lifio a phrosesu.

1.12 O ddefnyddio dull gwahanol o fesur GYG, sef tynnu gwybodaeth o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar gyfer y tri chod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (DDS) a ganlyn: 'Coedwigaeth a thorri a thrin coed' (DDS 02), 'Gweithgynhyrchu cynhyrchion coed, heblaw dodrefn' (DDS 16), a 'Gweithgynhyrchu cynhyrchion papur' (DDS 17), gallwn weld twf y sector yn ystod y cyfnod cyflawni, o £553 yn y flwyddyn ddiwethaf cyn i'r cynllun gael ei lansio (2015) i £632m erbyn 2020. Rydym

[6] Llywodraeth Cymru, Dangosyddion Coetiroedd i Gymru 2017-18.

yn nodi, fodd bynnag, bod y cynnydd hwn o 14 y cant yn is na chyfartaledd y DU (19 y cant).

**Tabl 1.1: Amcangyfrifon o'r prisiau cyfredol (miliynau o bunnoedd) ar gyfer 'Coedwigaeth a thorri a thrin coed'**

| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | % o gynnydd o 2015–2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y DU | 7,449 | 8,337 | 8,016 | 7,980 | 8,994 | 8,880 | 19% |
| Lloegr | 5,652 | 6,363 | 6,159 | 6,121 | 6,906 | 6,854 | 21% |
| Cymru | 553 | 620 | 560 | 563 | 632 | 632 | 14% |
| Yr Alban | 1,005 | 1,077 | 1,034 | 1,028 | 1,130 | 1,080 | 7% |
| Gogledd Iwerddon | 239 | 276 | 263 | 268 | 326 | 314 | 31% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o ddata GYG y sector ac yn rhanbarthol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

## Cyd-destun y polisi

1.13 Mae gan yr Undeb Ewropeaidd hanes hir o gyfrannu tuag at reolaeth gynaliadwy yr Aelod-wladwriaethau ar goedwigaeth drwy ei pholisïau. Lansiwyd Strategaeth Goedwigaeth newydd gan yr Undeb Ewropeaidd yn 2013[7] i sicrhau y byddai potensial amlswyddogaethol coedwigoedd yr UE yn cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy a chytbwys. Roedd yn nodi'r egwyddorion allweddol oedd eu hangen i gryfhau rheolaeth gynaliadwy ar goedwigaeth a'i gwneud yn fwy cystadleuol a chreu swyddi, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, gan hefyd sicrhau gwarchodaeth i goedwigoedd a darpariaeth y gwasanaethau ecosystem.

1.14 Mae arferion rheoli cynaliadwy'n allweddol i gynnal bioamrywiaeth, ymdrin â newid hinsawdd mewn coedwigoedd, a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y mae coedwigoedd yn eu darparu. Ond, daeth adroddiad gan Lys Archwilwyr Ewrop (LlAE) i'r casgliad bod yr UE, yn yr ardaloedd lle mae'n gweithredu'n gwbl gymwys, wedi cael effaith "bositif ond cyfyngedig" ar ddiogelu bioamrywiaeth ac ymdrin â newid hinsawdd yng nghoedwigoedd yr UE[8].

1.15 Mae Strategaeth Coedwigaeth yr UE yn nodi bod Cynlluniau Rheoli Coedwigoedd yn offerynnau allweddol wrth ddarparu rheolaeth coedwigoedd cynaliadwy. Cyhoeddwyd y byddai RhDG Cymru'n defnyddio Cynlluniau Rheoli Coedwigoedd

[7] Y Comisiwn Ewropeaidd, A new UE Forest Strategy: for forests and the forest-based sector, 2013.
[8] Llys Archwilwyr Ewrop, EU funding for biodiversity and climate change in UE forests, 2021.

yn rhan o'i strategaeth 2014-2020 i yrru ei phrosesau sy'n gysylltiedig â cheisiadau a chyllid.

1.16 Cafodd y strategaeth Coetiroedd i Gymru ei chyhoeddi'n gyntaf yn 2001 ac roedd yn nodi'r cyfeiriad strategol i goedwigaeth Cymru dros y 50 mlynedd ddilynol[9]. Amlinellodd weledigaeth lle byddai coetiroedd yn hanfodol o ran cynnal yr amgylchedd ehangach, darparu cyfleoedd i bobl a chymunedau, a gwella bywydau pawb yng Nghymru. Mae'r strategaeth wedi cael ei hadnewyddu dros y blynyddoedd yn unol â chyhoeddiadau fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r Polisi Adnoddau Naturiol (2020).

1.17 Yn ei fersiwn ddiweddaraf, mae'r targedau canlyniadau allweddol ar gyfer y strategaeth wedi parhau'n gyson ac maent wedi eu nodi isod.

- Mae mwy o goetiroedd a choed yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.
- Mae ecosystemau coetiroedd yn iach a gwydn.
- Mae'n well addasu coetiroedd i ddarparu amrywiaeth lawn o fuddion.
- Mae'r gorchudd coetiroedd yng Nghymru'n cynyddu.
- Mae rheolaeth coetiroedd a choed yn perthyn yn agosach i'r rheolaeth ar ddefnyddiau eraill y tir.
- Mae coed a choetiroedd trefol yn darparu amrywiaeth lawn o fuddion.

1.18 Mae rhan fawr o bolisi LlC yn y maes hwn wedi ei chanolbwyntio ar greu coetiroedd, a chyflwynwyd nifer o raglenni i gyflawni'r amcanion strategol hyn. Lansiwyd rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru[10] yng ngwanwyn 2020 gydag ymrwymiad i greu coetiroedd newydd a helpu i adfer a gofalu am rai o goetiroedd hynafol unigryw Cymru. Yn rhan o'r rhaglen hon, cyflwynwyd y Grant Buddsoddi mewn Coetir (GBC), oedd yn cynnig 100 y cant o'r cyllid – hyd at uchafswm o £250,000 – i brosiectau sy'n ymwneud â chreu coetiroedd newydd neu wneud gwelliannau i goetiroedd sy'n bodoli'n barod. Hefyd, lansiwyd Cynllun Adfer y Diwydiant

[9] Coetiroedd i Gymru (llyw.cymru).
[10] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (legislation.gov.uk).

Coedwigaeth (CADC) yn 2020 mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Darparodd gyllid i'r sector i wneud buddsoddiadau cyfalaf er mwyn cynyddu eu gallu a galluogi i'r sector gyfrannu at adferiad gwyrdd. Roedd y meysydd cymwys yn cynnwys offer i alluogi i feithrinfeydd coed gynyddu eu gallu i gyflenwi coed, offer paratoi'r tir, offer ar gyfer gwaith diogelwch coed i goed sydd wedi eu heffeithio gan glefyd (Chalara) coed ynn, ac offer neu dechnoleg priodol sy'n gwella cynaeafu pren (y gwelwyd ei fod yn gwella rheolaeth coedwigoedd cynaliadwy)[11].

1.19 Cyhoeddodd LIC adroddiad hefyd yn 2021 a gomisiynwyd gan Fforwm Rheoli Tir Cymru i adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael am y gyrwyr, rhwystrau ac atebion posibl i greu coetiroedd yng Nghymru[12]. Amlinellodd yr adroddiad restr o argymhellion i'w defnyddio i gefnogi creu coetiroedd, gan ganolbwyntio ar alluogi i fwy o reolwyr tir blannu mwy o goed yn amlach. Un o'r argymhellion yn yr adroddiad oedd bod angen ail feddwl am y cyllid i berchenogion tir fel bod y cymhellion i gymryd rhan mewn ffordd gynaliadwy'n fwy atyniadol na buddion opsiynau eraill fel gwerthu.

1.20 Ar ben hynny, mae LIC wedi sefydlu tasglu 'Coed a Phren' sydd â'r rôl o gefnogi plannu coed a'r diwydiant pren ehangach, gyda ffocws ar sgiliau a rheolaeth. Yn rhan o hyn, cynhaliodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ymarfer archwilio dwfn ym mis Mehefin 2021 i bennu a blaenoriaethu cyfres o gamau gweithredu ar gyfer cynyddu plannu coed a goresgyn rhwystrau, ac roedd yr argymhellion yn cynnwys y canlynol[13]:

- sicrhau nad yw perchenogion tir yn colli allan yn ariannol o ganlyniad i blannu coed (yn hytrach na defnyddio'r tir at ddibenion eraill)
- defnyddio'r rhaglen gyflawni tai cymdeithasol i gyfundrefnu'r defnydd o bren Cymreig
- annog a galluogi buddsoddiad mewn gweithgynhyrchu gwerth ychwanegol yn rhan o'r strategaeth ddiwydiannol ar gyfer coed.

[11] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (legislation.gov.uk).
[12] Polisi adnoddau naturiol.pdf (llyw.cymru).
[13] Argymhellion y tasglu Coed a Phren (llyw.cymru).

1.21 Mewn perthynas â gwerthu a marchnata pren, lansiodd CNC ei ‘Gynllun Gwerthu a Marchnata Pren 2021–2026’[14] yn ddiweddar. Nod y cynllun yw helpu i ddatblygu sector prosesu pren a choedwigaeth ffyniannus, ac mae’n cydnabod bod y sector yn gyfrannwr allweddol i economi gwledig iach, coedwigaeth gynaliadwy, a rheolaeth adnoddau naturiol yng Nghymru. Fel cyflenwr pren ardystiedig mwyaf Cymru, mae CNC yn cydnabod y rôl sydd ganddynt o ran sicrhau bod eu gweithgareddau cynaeafu a marchnata yn cefnogi’r nodau ehangach hyn. Hefyd, mae’r cynllun yn amlinellu eu cefnogaeth barhaus i ymgysylltu â’r sector prosesu coed a choedwigaeth ehangach er mwyn ceisio cydweithio parhaus, a gweithio gyda chwsmeriaid a chontractwyr pren i helpu i ddiogelu diogelwch a bywoliaeth partneriaid. Mae eu gwaith ochr yn ochr â LIC i hyrwyddo defnydd ehangach o bren sydd wedi ei ‘Wneud yng Nghymru’ mewn sectorau eraill fel tai, yn ogystal â hwyluso gallu cymunedau a marchnadoedd arbenigol i gael mynediad i bren Cymreig, yn rhan allweddol o’r uchelgais hwn.

**Cyflwyniad i’r CBBP**

**Nodau**

1.22 Y weledigaeth sy’n sail i Fesur Coedwigaeth RhDG 2014–2020 yw ymgais i sicrhau bod coetiroedd Cymru’n ehangu ac yn cael eu rheoli’n well a’u bod yn gallu gwrthsefyll newid yn well yn dilyn y rhaglen saith mlynedd. Mae’r cynllun yn cefnogi amcanion y RhDG o dan Flaenoriaeth 5c (‘Hyrwyddo effeithiolrwydd adnoddau a chefnogi’r symudiad tuag at economi carbon isel a gwydn i hinsawdd’*)* a Blaenoriaeth 6a (‘Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol, gostwng tlodi a datblygiad economaidd mewn ardaloedd gwledig’*).* O’r pum ffenestr ymgeisio a agorwyd ar gyfer y cynllun hwn, bwriad y buddsoddiad oedd cefnogi mentrau a fyddai’n gwella gallu ymgeiswyr i:

- wireddu potensial coedwigaeth neu gyfrannu at eu symud (cynaeafu)
- cyfrannu at brosesu ac ychwanegu gwerth i gynhyrchion y goedwig.

[14] Cynllun Gwerthiannau a Marchnata Pren 2021 hyd 2026 (cyfoethnaturiol.cymru)

1.23 Cyflwynwyd dau amcan pellach ar gyfer y ffenestr ymgeisio derfynol, sef:

- ymdrin â choed sydd â chalara (y cyfeirir ato fel arfer fel clefyd (Chalara) coed ynn)
- cynyddu eu gallu fel meithrinfa goed.

**Crynhoi'r rhesymeg**

1.24 Y rhesymeg tu ôl i'r cynllun yw defnyddio buddsoddiad wedi ei dargedu i roi cyfleoedd i fusnesau pren dyfu, i wella cyflwr coetiroedd yng Nghymru, ac i ddod â choetiroedd anhygyrch o dan reolaeth. Mae cyfran fawr o'r coetiroedd yng Nghymru heb eu rheoli, neu heb eu rheoli'n ddigonol, a hynny'n aml oherwydd y ffaith nad ydynt yn hygyrch, ac felly mae angen cael gwahanol fathau o beiriannau ar gyfer cynhyrchu cynaliadwy. Mae gan y cynllun synergedd cryf ag amcanion polisi allweddol LlC o ran tyfu mwy o goed a'r mathau o fuddion amgylcheddol y gall tyfu'r diwydiant pren eu sicrhau.

**Y model cyflawni**

1.25 Mae'r model cyflawni ar gyfer y CBBP yn cynnwys pedwar gweithgaredd gwahanol:

- hyrwyddiad y cynllun
- ffenestri ymgeisio a gwerthusiad
- cymorth buddsoddi cyfalaf i fusnesau
- gweinyddiad parhaus y cynllun (yn cynnwys monitro, adrodd, ac ati).

1.26 Cafwyd gweithgarwch ymgysylltu rhanddeiliaid cychwynnol cyn lansio'r cynllun i sicrhau bod sefydliadau sy'n gweithredu o fewn y sector yn ymwybodol y byddai cymorth grant ar gael. Unwaith y cafodd ei lansio, hyrwyddwyd y cynllun ar-lein drwy'r wefan LlC, Taliadau Gwledig Cymru (TGC), cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau, er na chafwyd unrhyw ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus (CC) mawr.

1.27 Wedi hynny, dosbarthwyd y grantiau drwy broses ymgeisio dau gam, gyda sefydliadau'n cael eu gwahodd yn gyntaf i gyflwyno datganiad o ddiddordeb (DoDd), drwy ffenestri ymgeisio. Roedd y tîm polisi yn LlC yn gyfrifol am y cam DoDd cyntaf. Byddai pob DoDd yn cael eu sgorio yn ôl y meini prawf a osodwyd

gan y tîm polisi. Yna byddai'r ymgeiswyr gyda'r graddau uchaf yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais cam 2 llawn, a byddai'r tîm TGC yn rheoli'r broses honno.

1.28 Roedd meini prawf dewis y DoDd wedi eu seilio ar asesiad o'r ffordd y sgoriwyd y prosiectau yn erbyn yr amcanion a ganlyn:

- gwella'r capasiti i dyfu neu ddefnyddio pren a dyfwyd yng Nghymru
- ehangu marchnadoedd lleol a'u manteision
- gwella cynaeafu pren o waith teneuo neu goetiroedd anhygyrch graddfa fach gan ddefnyddio peiriannau priodol
- cynyddu gallu busnesau coedwigaeth Cymreig i wneud gwaith paratoi'r tir cyn plannu coed
- gwerth am arian wedi'i gyfrifo ar arwynebedd y coetir a gwerth gros y prosiect.

1.29 Nid oedd buddsoddiad mewn meithrinfeydd coed a gwaith diogelu coed i goed sydd wedi eu heffeithio gan y clefyd (Chalara) coed ynn ar gael yn y pedair ffenestr gyntaf ond roedd ar gael i ffenestr 5. Gwnaethpwyd newidiadau i'r pwysoli oedd yn gysylltiedig â'r meini prawf dethol a ddisgrifir uchod er mwyn annog mwy o brosiectau meithrinfeydd a chlefyd (Chalara) coed ynn. Gallai'r grantiau gael eu defnyddio ar gyfer y gweithgaredd a ganlyn:

- gwariant cyfalaf yn cynnwys buddsoddiadau sefydlog, ffisegol neu nad ydynt ar nwyddau traul, fel adeiladau, unedau cysur, ac offer a pheiriannau, ochr yn ochr â chostau gosod
- y gweithrediadau gwaith cyn llifio pren yn ddiwydiannol, e.e. paratoi'r tir, torri coed i lawr, llifio a phrosesu yn y goedwig, ac ati
- costau sy'n gysylltiedig â symud pren, fel cludo pren o fewn y goedwig gydag offer coedwigaeth arbenigol ond heb gynnwys gweithgareddau cludiant ffordd arferol
- prosesu diwydiannol graddfa fach, h.y. yr holl brosesu o fewn y goedwig yn ogystal â phrosesu mewn cyfleusterau gyda chapasiti dylunio o hyd at 10,000 metr ciwbig bob blwyddyn o dan risgl

- cynhyrchu sglodion neu belenni pren ar raddfa fach naill ai o fewn y goedwig neu fel gweithgaredd wedi'i gysylltu â gweithgareddau gwaith cyn prosesu diwydiannol a pheiriannau llifio, hollti neu arall ar raddfa fach, sy'n symudol neu sefydlog
- technolegau a mecanweithiau methrinfa goed coedwigoedd i gynhyrchu coed coedwigoedd ymgeledd (i ffenestr 5).

1.30 Roedd yn rhaid i'r buddsoddiad fod yn gysylltiedig â gwella gwerth economaidd coedwigoedd penodol, darparu buddion i un neu fwy o ddaliadau, a rhoi'r ffocws ar arferion a pheiriannau cynaeafu sy'n garedig i'r pridd ac yn ysgafn ar adnoddau. Gallai contractwyr oedd yn darparu gwasanaethau i ddalwyr coedwigoedd eraill geisio'r gefnogaeth hon hefyd.

1.31 Yn ogystal â chydymffurfio ag amcanion y gronfa, gofynnwyd i'r ymgeiswyr hefyd ddangos:

- bod angen y gweithgaredd (h.y. mae'n cyfrannu tuag at nod y cynllun)
- angen am gyllid (h.y. ni all symud ymlaen heb y cyllid, a'r grant yw'r cyllid llenwi bwlch lleiaf sy'n angenrheidiol i'r prosiect fynd yn ei flaen)
- gallu i ddarparu (e.e. yn ymarferol yn ariannol, mae marchnad lawn addewid ar gyfer cynnyrch y prosiect, y gallu i fonitro cynnydd, ac ati).

1.32 Unwaith y cymeradwywyd y cais llawn (cam 2), dyfarnwyd y cyllid i'r ymgeiswyr a gallent brynu'r offer, gyda'r tîm cyflawni wrth law i roi cefnogaeth gyda materion fel canfod yr offer a'r peiriannau cywir neu ymdrin â cheisiadau am newid (e.e. estyniadau i'r prosiect, y math o offer a brynwyd, ac ati). Yna dechreuwyd proses fonitro lai manwl, yn cynnwys adroddiadau in-situ i raddau mawr er mwyn sicrhau fod buddsoddiadau'n cael eu gwario fel y cynlluniwyd ac i fonitro'r canlyniadau perthnasol.

1.33 Gallai grantiau CBBP gael eu defnyddio i orchuddio hyd at 40 y cant o'r gost fuddsoddi gyfan, gyda derbyniwr y grant yn darparu cyllid cyfatebol o 60 y cant. Cyflenwyd y grantiau drwy bum ffenestr ymgeisio, a chan bob un gyllideb wahanol o £2m ac eithrio ffenestr 3, oedd â chyllideb o £1m, gan adio at ei gilydd felly i roi

cyllideb gyfan o £9m ar draws y pum ffenestr. Doedd dim lleiafswm neu uchafswm cyfyngiadau o fewn y gyllideb ffenestri gyffredinol (h.y. o £1-2, fesul ffenestr).

1.34 Mae amlinelliad manwl o'r ddamcaniaeth newid sy'n tanategu'r cynllun hwn yn Atodiad F.

**Nodau ac amcanion y gwerthusiad**

1.35 Prif nod y gwerthusiad oedd darparu asesiad annibynnol o weithrediad ac effaith y cynllun yng Nghymru. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i fod yn sail dystiolaeth i hysbysu penderfyniadau yn y dyfodol yn ymwneud â buddsoddiadau sy'n cefnogi'r diwydiant pren yng Nghymru. Aseiniwyd wyth cwestiwn gwerthuso ar gyfer yr astudiaeth hon, fel a ganlyn.

- Pa mor effeithiol weithredwyd y broses DoDd, ymgeisio a gwerthuso?
- Beth oedd y lefel o ymgysylltiad â buddiolwyr ac ymgeiswyr posibl? Pa mor effeithiol oedd y prosesau hyn?
- Pa mor effeithiol gafodd y cynllun ei ddylunio, ei weinyddu a'i gydlynu, yn cynnwys y broses ymgeisio, y systemau monitro, y cyfathrebu ac argaeledd cymorth ar ôl y dyfarniad?
- I ba raddau y llwyddodd CBBP i gyflawni'r targedau a osodwyd ar gyfer y cynllun?
- Beth oedd effaith gyffredinol y CBBP (gydag ystyriaeth arbennig i unrhyw effeithiau economaidd ac amgylcheddol y cynllun)?
- Sut werth am arian (GaA) a gafwyd yn gyffredinol gan y cynllun?
- I ba raddau yr oedd y cynllun yn alinio â gwasanaethau cymorth eraill ac amcanion strategol LlC/UE?
- Pa wersi a ddysgwyd a pha argymhellion ar gyfer y cynllun cyfredol ellir eu darparu o asesiad a gwerthusiad y CBBP?

## 2. Y Fethodoleg

2.1 Cafodd y gwerthusiad hwn ei weithredu dros ddau gam. Cychwynnodd Cam 1 pan benodwyd Wavehill ym mis Tachwedd 2021 a chafodd ei gwblhau ym mis Mehefin 2022 yn dilyn cynhyrchu 'Adroddiad y Fframwaith Gwerthuso'. Roedd y cam cychwynnol hwn yn canolbwyntio i ddechrau ar gynllunio, cwmpasu a gwerthuso. Ei brif bwrpas oedd datblygu dealltwriaeth gadarn o'r maes astudio, yn cynnwys deall cefndir a chyd-destun y polisi, y model cyflawni, a'r canlyniadau bwriadedig (a ddangoswyd mewn model damcaniaeth newid), cyn sefydlu'r fframwaith gwerthuso (h.y. y cynllun ar gyfer gwerthuso). Roedd hyn hefyd yn cynnwys adolygiad o wybodaeth rheoli'r cynllun er mwyn penderfynu ar y math o dystiolaeth a fyddai ar gael ar gyfer y gwerthusiad drwy'r casgliad data mewnol, ac felly'r gofynion data cychwynnol drwy'r gwerthusiad allanol. Roedd y model damcaniaeth newid yn hysbysu'r fframwaith gwerthusiad yn unionyrchol drwy sefydlu'r dangosyddion llwyddiant yn ogystal â'r gofynion casglu data. Nesaf, gallem ddatblygu'r offer ymchwilio ar gyfer y gwerthusiad olaf (cam 2). Roedd y gweithgareddau ymchwilio cam 1 yn cynnwys y canlynol:

- deg cyfweliad cwmpasu a wnaed gyda swyddogion LIC a rhanddeiliaid eraill
- adolygiad manwl o ddogfennaeth y cynllun (nodiadau arweiniad y cynllun, ffurflen gais, data monitro, ac ati) a deunydd gwybodaeth ehangach (e.e. papurau polisi ac adroddiadau wedi eu seilio ar y sector)
- gweithdy damcaniaeth newydd gyda swyddogion LIC a rhanddeiliaid allanol
- datblygiad model damcaniaeth newid a fframwaith gwerthuso sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad cam 1.

2.2 Rydym wedi gweithio'n agos â LIC drwy gydol y gwerthusiad, a dechreuodd cyfnod hir yn dilyn cam 1 i ddatblygu'r offer ymchwil ar gyfer y gwerthusiad terfynol, gyda nifer o fersiynau'n cael eu drafftio rhwng Mehefin a Medi 2022.

2.3 Defnyddiwyd dulliau ymchwil cymysg ar gyfer y gwerthusiad terfynol, gan ddefnyddio data ansoddol a meintiol. Roedd angen gwneud hyn i ymdrin â nodau ac amcanion y gwerthusiad fel y maent wedi eu nodi yn y bennod flaenorol, gyda rhai'n cael eu trin yn well drwy ddata ansoddol (e.e. archwilio effeithiolrwydd y

broses rheoli hawliadau) ac eraill drwy ddull meintiol (e.e. nodi'r effeithiau economaidd ac amgylcheddol), er bod y rhan fwyaf yn gofyn am gyfuniad o'r ddau. Gwnaethpwyd y gweithgareddau ymchwil dilynol yng ngham 2 i hysbysu'r adroddiad hwn.

- Gwnaethpwyd ail rownd o gyfweliadau manwl gyda swyddogion LIC a rhanddeiliaid o fisoedd hwyr 2022 hyd fisoedd cynnar 2023. Roedd y rhain yn cynnwys pedwar cyfweliad manwl yn para awr gyda'r personél TGC a pholisi o fewn LIC oedd wedi bod yn rhan o waith darparu'r cynllun. Roedd y trafodaethau'n archwilio effeithiolrwydd y dulliau dylunio a chyflawni, canlyniadau'r cynllun, a'u canfyddiadau am y prif wersi a ddysgwyd (mae'r gyfres lawn o gwestiynau i'w cael yn Atodiad A). Cafodd pump rhanddeiliad allanol eu cyfweld hefyd. Cafodd y rhain eu pennu gan ddefnyddio rhestr o unigolion a sefydliadau oedd wedi cymryd rhan yn ymarfer archwiliad manwl Llywodraeth Cymru (y cyfeiriwyd ato yn y bennod flaenorol) ar sail y ffaith bod y rhain yn rhai o'r lleisiau mwyaf blaenllaw yn y diwydiant ac y byddent yn gallu rhoi cipolwg allanol ar y cynllun a'i werth i'r sector (mae'r gyfres lawn o gwestiynau yn Atodiad B).
- Cafodd tri deg un o fusnesau oedd wedi derbyn y cymorth grant (h.y. y buddiolwyr) eu harchwilio rhwng mis Medi a mis Hydref 21022. Cafodd y rhain eu recriwtio o gofnodion poblogaeth llawn, a rhoddwyd 64 o gysylltiadau busnes unigryw i ni i gyd. Roedd yr arolygon yn gyfweliadau ffôn manwl (yn para tua 50-60 munud) a wnaed gan ein tîm ymchwilio profiadol, a arweiniodd yr arolwg yn fewnol cyn lansio'r gwaith maes. Roedd yr arolwg yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau ansoddol a meintiol a luniwyd i ddeall eu taith fusnes a rôl CBBP o fewn honno, eu cymhellion ar gyfer cefnogi, eu profiad o'r cynllun, a'r canlyniadau a'r twf a welwyd (gwelwch Atodiad C i weld y gyfres lawn o gwestiynau). Roedd llawer o'r drafodaeth yn ansoddol ei natur oherwydd maint bychan y boblogaeth a'r sampl, ac roedd felly'n gadael i ni gasglu gwybodaeth fanwl am eu profiad. Ond, roeddem hefyd wedi cynnwys nifer o gwestiynau caeedig er mwyn casglu data ansoddol fel y gallem gyffredinoli'r canlyniadau'n well i gyd-fynd â'r ymatebion manwl. Defnyddiwyd dull cyfrifiad ar gyfer y samplu, a chysylltwyd â'r busnesau i gyd o leiaf bum gwaith, neu hyd nes y

gellid cyflawni canlyniad terfynol, gyda'r bwriad o sicrhau cynifer o ymatebion ag a oedd modd. Cynhyrchodd hyn gyfradd ymateb o 48 y cant (cwblhawyd cyfweliadau gyda 31 o'r 64 busnes), gan ddarparu sampl rhesymol o gryf felly ar gyfer deall profiad y buddiolwyr.

- Cafodd tri deg naw o fusnesau oedd wedi cyflwyno DoDd ond oedd heb dderbyn cymorth (h.y. oedd ddim yn fuddiolwyr) eu harolygu hefyd rhwng misoedd Medi a Hydref 2022. Cafwyd hyd i'r rhain hefyd o'r cofnodion poblogaeth llawn, a rhannwyd 117 o gysylltiadau busnes unigryw gan Lywodraeth Cymru. Lluniwyd hyn i gefnogi'r asesiad o'r effeithiau gwrth-ffeithiol (h.y. deall beth allai fod wedi digwydd os na fyddai'r cymorth wedi bod ar gael) drwy ddeall a oedd y bobl nad oeddent yn fuddiolwyr wedi symud ymlaen â'r buddsoddiadau heb y gefnogaeth ai peidio, ac aethom ati hefyd i archwilio eu profiad o ymgysylltu â'r cynllun (gellir gweld y gyfres lawn o gwestiynau yn Atodiadau D ac E). Cafodd y rhan fwyaf o'r ymatebion hyn (31/39) eu sicrhau drwy gyfweliadau ffôn, a gafodd eu treialu'n fewnol cyn lansio'r gwaith maes. Ond yna crewyd fersiwn symlach o'r arolwg (gwelwch Atodiad E) a gafodd ei ddosbarthu ar-lein i'r holl fusnesau oedd heb ymateb i'r ceisiadau i gysylltu dros y ffôn, gyda'r pwyslais ar y ffaith ei fod yn arolwg bach a syml. Roedd yr arolwg ffôn yn fyw hyd ganol mis Hydref 2022, ac roedd yr arolwg ar-lein yn fyw am bythefnos olaf y mis, gan gynhyrchu wyth ymateb ychwanegol. Gyda'i gilydd, mae'r 39 ymateb yn gyfatebol â chyfradd ymateb o 33 y cant (o'r 117 o gysylltiadau a roddwyd i ni), gan ddarparu sampl cymharu defnyddiol (er nad oedd yn ystadegol gadarn). Ar sail y data a roddwyd i ni, aethom ati i gategoreiddio cysylltiadau 'nad oeddent yn fuddiolwyr' i bedwar grŵp: 77 busnes oedd heb symud ymlaen y tu hwnt i'r cam DoDd (roedd 25 o'r arolygon a gwblhawyd (64 y cant) yn y categori hwn); 28 ymgeisydd a wahoddwyd i gyflwyno cais cam 2 ond na wnaeth gais neu a dynnodd allan (10 arolwg cyflawn (26 y cant) yn y categori hwn); saith ymgeisydd a gyflwynodd gais cam 2 ond a oedd yn aflwyddiannus (tri wedi cwblhau/wyth y cant); a phump ymgeisydd y cymeradwywyd cyllid iddynt ond a ddaeth i ben yn fuan (doedd neb wedi cwblhau'r arolwg). Er y cysylltwyd â phob un o'r 117 busnes, gofynnwyd i'r tîm ymchwil dargedu cynrychiolaeth o bob un

o'r categorïau hyn er mwyn canfod safbwyntiau gwahanol gan bobl nad oeddent yn fuddiolwyr. Felly, targedwyd y grwpiau llai yn fwy egnïol.

- Cafodd y ffynhonnell allweddol derfynol o ddata ei choladu drwy adolygu'r data Gwybodaeth Rheoli. Roedd hyn yn cynnwys adolygu'r holl ddata ymgeisio o ran nifer a gwerth y Datganiadau o Ddiddordeb a'r ceisiadau ymhob ffenestr, eu cyfradd llwyddiant, a'r maint a hawliwyd; adolygiad o ddata dangosydd perfformiad allweddol (DPA) a gwariant y cynllun; ac adolygiad o'r ffurflenni DoDd (mae 45 ffurflen[15] wedi eu cynnwys yn yr adolygiad) ac adroddiadau in-situ (adolygwyd dyfyniadau o 54 adroddiad) i gasglu rhagor o wybodaeth am y bwriadau, cyweddu strategaethau, a chanlyniadau'r prosiectau.

2.4 Mae'r gweithgareddau ymchwil a ddisgrifir uchod wedi sefydlu'r sail tystiolaeth ar gyfer y gwerthusiad terfynol, gan alluogi i ni ymdrin â'r wyth cwestiwn gwerthuso allweddol a amlinellwyd yn y bennod flaenorol. Defnyddiwyd y ffynonellau gwybodaeth dilynol i ymdrin â phob cwestiwn gwerthuso (gwelwch isod).

**Tabl 2.1: Ffynonellau data a ddefnyddiwyd i ymdrin â'r cwestiynau gwerthuso**

| **Cwestiynau gwerthuso** | **Ffynonellau meintiol** | **Ffynonellau ansoddol** |
|---|---|---|
| CG1 – effeithiolrwydd y prosesau DoDd, ymgeisio a gwerthuso | - Dadansoddiad o ddata'r ffurflenni ymgeisio (e.e. nifer, maint, ac ati)<br>- Sgorau busnesau ar bob elfen | - Dadansoddiad o ddata'r ffurflenni ymgeisio (e.e. disgrifiadau o'r prosiectau)<br>- Adborth gan y tîm cyflawni a'r ymgeiswyr |
| CG2 – effeithiolrwydd dulliau o ymgysylltu â busnesau | - Dadansoddiad o ddata'r ffurflenni ymgeisio (e.e. nifer)<br>- Adborth gan ymgeiswyr ynglŷn â sut y daethent i wybod amdano | - Adborth gan y tîm cyflawni a'r ymgeiswyr |
| CG3 – effeithiolrwydd cynllunio a gweinyddu'r cynllun | - Sgorau busnesau am gyfathrebu, honiadau ac ati | - Adborth gan y tîm cyflawni a'r ymgeiswyr |
| CG4 – cyflawni yn erbyn targedau | - Dadansoddiad o gyflawniad y DPA yn erbyn targedau<br>- Dadansoddiad o'r cyflawni ariannol yn erbyn y targedau | |

[15] Rhannwyd cyfanswm o chwe deg wyth o ffurflenni; ond, nid oedd modd cyfateb 23 gyda naill ai'r busnes, yr ymgeisydd neu'r enw prosiect ar y rhestr o fuddiolwyr a gadarnhawyd a rannwyd gyda Wavehill. Rydym yn credu bod rhai o'r ffurflenni DoDd hyn ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus. Felly, cafodd yr holl gofnodion oedd heb eu cyfateb eu heithrio o'r dadansoddiad.

| Cwestiynau gwerthuso | Ffynonellau meintiol | Ffynonellau ansoddol |
|---|---|---|
| CG5 – yr effaith gyffredinol | - Dadansoddiad o gyflawniad y DPA yn erbyn targedau<br>- Y canlyniadau a nodwyd gan fuddiolwyr | - Adborth gan y tîm cyflawni a'r ymgeiswyr<br>- Dadansoddiad o'r adroddiadau gwerthuso |
| CG6 – gwerth am arian | - Dadansoddiad o gostau ac adenillion economaidd | - Adborth gan randdeiliaid allanol |
| CG7 – aliniad â gwasanaethau eraill ac amcanion strategol | | - Adborth gan randdeiliaid allanol |
| CG8 – gwersi a ddysgwyd ac argymhellion | - Wedi ei seilio ar yr holl wybodaeth a gynhyrchwyd o'r uchod | |

2.5 Rydym wedi asesu'r gwerth am arian (Cwestiwn Gwerthusiad Allweddol 6) gan ddefnyddio'r dull '5 E', h.y. archwilio'r economi (a wariwyd y cyllid yn y ffordd orau?), effeithiolrwydd ac effeithlonedd y cyflawni (h.y. o ran darparu canlyniadau ac allbynau'r cynllun fel y maent wedi eu hamlinellu yn y ddamcaniaeth newid), cost-effeithiolrwydd (h.y. yr adenillion economaidd ar fuddsoddiad (AoF) ond hefyd adenillion eraill megis buddion amgylcheddol), a chydraddoldeb [*equity*] (h.y. hygyrchedd). Mae'r fframwaith gwerthuso yn Atodiad G yn rhoi rhagor o wybodaeth am ein dull o ymdrin â phob un o'r cwestiynau gwerthuso hyn.

**Cyfyngiadau**

2.6 Mae pedwar cyfyngiad nodedig ar y gwerthusiad. Yn gyntaf, roedd cyfran fawr o brosiectau (19/74; 26 y cant) yn dal i fod yn weithredol ar adeg ysgrifennu'r adroddiad (Chwefror 2023), ac roedd rhai buddiolwyr yn dal i fod yn y broses o brynu'r offer. Roedd y gyfran hon hyd yn oed yn uwch ar adeg gwneud yr arolwg ym mis Medi a Hydref 2022. Cafodd hyn ei liniaru drwy gynnwys ffocws ar y potensial yn y dyfodol o fewn cwestiynau'r arolwg er mwyn rhagweld effeithiau posibl; fodd bynnag, mae wedi cyfyngu ar ein gallu i benderfynu beth yw effeithiau cyffredinol a thymor hirach y cynllun.

2.7 Yn ail, mae'r busnesau sy'n gweithredu o fewn y diwydiant pren yn grŵp anodd eu cyrraedd, gydag unigolion yn gweithio oriau gwahanol, ac yn gweithredu'n aml mewn lleoliadau sydd â signal ffôn symudol gwael ac nid ydynt yn monitro eu negeseuon e-byst yn rheolaidd. Er bod Wavehill wedi derbyn manylion cysylltu

digonol, gyda chyfeiriadau a rhifau ffôn ar gyfer eu cysylltiadau i gyd (a dim ond un cyfeiriad e-bost nad oedd yn derbyn negeseuon), roedd y tîm ymchwil yn ei chael yn anodd cysylltu â busnesau. Yn wir, roedd 38 y cant o gysylltiadau â buddiolwyr (24/64) wedi eu cofnodi fel rhai 'na ellir cysylltu â nhw', h.y. lle na allem gysylltu â'r busnesau ar ôl pum cais, a dewisodd 14 y cant arall (naw busnes) optio allan o'r ymchwil. Yn yr un modd, cafwyd cyfeiriadau e-bost cywir ar gyfer 115 o'r 117 o gysylltiadau nad oeddent yn fuddiolwyr yn ogystal â rhifau ffôn ar gyfer 114, ac eto ni allem gyrraedd 58 y cant (68/117) o'r cysylltiadau (er ein bod wedi ceisio droeon). Gwnaethom gais i liniaru rhai o'r anawsterau hyn drwy gysylltu â busnesau yn ystod oriau tu allan i'r swyddfa, er bod hyn wedi parhau'n her. Mae meintiau'r sampl yn rhoi canfyddiadau addas, dangosol, er nad oes ganddynt gadernid ystadegol, ac mae'r cyfwng hyder mor uchel â 12.7 y cant ar gyfer yr arolwg i fuddiolwyr a 12.9 y cant ar gyfer yr arolwg i'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr.

2.8 Yn drydydd, er ein bod wedi gallu gwneud asesiad o effaith economaidd (AEE) gweddol gadarn drwy ddefnyddio data am drosiant a data perthnasol arall gan fuddiolwyr a'r rhai nad ydynt yn fuddiolwyr, byddai asesiad mwy cadarn wedi gofyn ymgynghori â busnesau eraill i wneud gwaith mapio cadwyn gyflenwi manylach (e.e. deall ymhle y byddai cwsmeriaid newydd wedi canfod y cynhyrchion a'r cyflenwadau os na fyddai buddiolwyr wedi gallu tyfu). Yn ogystal, byddai cyfateb sgorau tueddfryd wedi galluogi dadansoddiad ystadegol mwy cadarn yn rhan o'n dull o gymharu gwahaniaethau. Dydy'r rhain ddim wedi bod yn bosibl oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau. Rydym yn hyderus, fodd bynnag, bod y dadansoddiad economaidd sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn[16] yn ddigon cadarn i roi syniad cryf o'r effaith a gynhyrchwyd gan y cynllun.

[16] Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y dull effaith economaidd yn yr adran 'Twf busnes ac effaith economaidd' ym Mhennod 6.

2.9 Yn bedwerydd, ac yn gysylltiedig â’r ddau bwynt olaf, dim ond 21 o’r 31 o ymatebwyr (68 y cant) oedd yn hapus neu’n teimlo eu bod yn gallu rhannu data trosiant gwaelodlin (h.y. y flwyddyn cyn derbyn y cymorth), a dim ond 20 (65 y cant) allai ddarparu’r wybodaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiweddaraf. Felly, mae’r AEE wedi ei seilio ar 20 ymatebwr, sy’n effeithio ymhellach ar gadernid y dadansoddiad.

## 3. Adolygiad o'r cynnydd yn erbyn targedau

3.1 O ran deall a yw cynllun grant cyfalaf fel y CBBP wedi darparu yr hyn yr oedd wedi bwriadu ei ddarparu, y cwestiwn cyntaf i'w ateb yw a ydyw wedi llwyddo i ddyrannu'r cyllid oedd yn y gyllideb. Yn yr adran hon, gwnaethpwyd dadansoddiad o'r data am hawlio a gwario'r ceisiadau grant. Yn ogystal, rydym yn ystyried y nifer o ddatganiadau o ddiddordeb a'r ceisiadau a'r gyfradd lwyddo ar draws y pum ffenestr cyllid. Ochr yn ochr â'r adolygiad o ddata ymgeisio a gwariant, rydym hefyd yn asesu'r cyflawniad yn erbyn targedau DPA er mwyn cael gwell dealltwriaeth o lwyddiant y cynllun i gyflawni'r hyn yr oedd yn bwriadu ei gyflawni.

### Adolygiad o'r data am ymgeisio a gwario'r grant

3.2 Mae Tabl 3.1 yn rhoi manylion nifer y datganiadau o ddiddordeb a gyflwynwyd a'r ceisiadau llwyddiannus ymhob ffenestr gyllid, ochr yn ochr â'r gyfradd lwyddiant. Mae 64 busnes i gyd wedi derbyn grantiau drwy'r CBBP i ariannu 74 o brosiectau – cafodd 54 eu cyllido ar un achlysur, tra bo 10 wedi eu cyllido ar ddau achlysur drwy ffenestri cyllid gwahanol.

3.3 Agorwyd y ffenestri cyllido ar yr un pryd bob blwyddyn o 2016 hyd 2019, gyda cheisiadau'n dod i mewn ym mis Ebrill ac yn cael eu dyfarnu o fis Mai hyd fis Mehefin. Ni agorwyd unrhyw ffenestri yn 2020, ac oedwyd unrhyw weithgarwch yn ystod y cyfnod hwn oherwydd y pandemig; fodd bynnag, agorwyd ffenestr 5 ar yr un adeg o'r flwyddyn yn 2021.

**Tabl 3.1: Cyfradd llwyddiant y ceisiadau grant ar bob cam o'r broses ymgeisio**

| | Nifer y Datganiadau o Ddiddordeb a dderbyniwyd | Nifer y Datganiadau o Ddiddordeb llwyddiannus (cam 1) | Cyfradd llwyddiant y Datganiadau o Ddiddordeb | Nifer y prosiectau gafodd ddyfarniad | Cyfradd llwyddiant Cam 2 | Cyfradd llwyddiant cyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffenestr 1 – 2016 | 49 | 21 | 43% | 12 | 57% | **24%** |
| Ffenestr 2 – 2017 | 46 | 38 | 83% | 23 | 61% | **50%** |
| Ffenestr 3 – 2018 | 43 | 11 | 26% | 9 | 82% | **21%** |
| Ffenestr 4 – 2019 | 31 | 14 | 45% | 10 | 71% | **32%** |

| | Nifer y Datganiadau o Ddiddordeb a dderbyniwyd | Nifer y Datganiadau o Ddiddordeb llwyddiannus (cam 1) | Cyfradd llwyddiant y Datganiadau o Ddiddordeb | Nifer y prosiectau gafodd ddyfarniad | Cyfradd llwyddiant Cam 2 | Cyfradd llwyddiant cyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffenestr 5 – 2021 | 50 | 31 | 62% | 20 | 65% | **40%** |
| Cyfanswm | 219 | 115 | 53% | 74 | 64% | **34%** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o'r data am geisiadau grant a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

3.4 Mae'r data'n dangos bod digonedd o ddiddordeb wedi bod yn y cynllun, a dim ond 53 y cant o'r bidiau (115/219) a basiodd y cam Datganiadau o Ddiddordeb cyn i'r holl gyllid oedd ar gael i'r ffenestri hynny gael ei ddyrannu. Yn gyffredinol, nid oedd y cynllun wedi 'gor-ddyrannu' cyllid, ac felly roedd yn dibynnu ar yr holl brosiectau a gymeradwywyd ar y cam DoDd i symud ymlaen tuag at gyflawni'n llwyddiannus. Mewn gwirionedd, ni ddigwyddodd hynny, oherwydd cafwyd gostyngiad yn y bidiau a symudodd o'r cam DoDdd i geisiadau llawn ac i brosiectau llwyddiannus (dim ond 64 y cant o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus (74/115) a symudodd ymlaen tuag at brosiectau). Gellir esbonio'r gostyngiad hwn drwy edrych ar broblemau gydag anghymwysedd ac oedi mewn amser, fel y byddwn yn ei drafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

3.5 Mae Tabl 3.2 isod yn dangos gwerth y grantiau a geisiwyd, a ddyfarnwyd ar sail DoDd, ac a gymeradwywyd yn dilyn y cais cam 2. Mae'n dangos unwaith eto bod digonedd o alw, a dim ond 49 y cant o'r maint cyfan y gwnaed cais amdano a gymeradwywyd ar y cam DoDd.

**Tabl 3.2: Gwerth y cyllid grant y gwnaed cais amdano ac a oedd yn llwyddiannus ar y cam DoDd**

| | Y Gyllideb | Gwerth cyfan y grantiau y gwaed cais amdanynt (y cam DoDd) | Y grant cyfartalog y gwnaed cais amdano (y cam DoDd) | Cyfanswm y grantiau a symudodd ymlaen at gymeradwyaeth cam 2 am DoDd llwyddiannus | % o werth cyfan y grantiau a symudodd ymlaen at gam 2 | Gwerth cyfartalog y grantiau a symudodd ymlaen i werthusiad cam 2 (DoDd llwyddiannus) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffenestr 1 – 2016 | £2,000,000 | £4,615,881 | £94,202 | £2,086,755 | 45% | £99,369 |
| Ffenestr 2 – 2017 | £2,000,000 | £1,933,621 | £42,035 | £1,605,021 | 83% | £42,237 |
| Ffenestr 3 – 2018 | £1,000,000 | £4,484,934 | £104,301 | £1,356,030 | 30% | £123,275 |
| Ffenestr 4 – 2019 | £2,000,000 | £3,195,816 | £106,527 | £1,983,414 | 62% | £141,672 |
| Ffenestr 5 – 2021 | £2,000,000 | £4,002,308 | £80,046 | £1,970,385 | 49% | £63,561 |
| Cyfanswm | £9,000,000 | £18,232,560 | £83,636 | £9,001,605 | 49% | £78,275 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o'r data am geisiadau grant a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

3.6 Roedd y grantiau'n amrywio'n sylweddol – a hynny o £2,434 i £379,000. Roedd y nifer o ddatganiadau o ddiddordeb a dderbyniwyd yn parhau'n weddol gyson o un ffenestr i'r llall, er bod rhywfaint o amrywiaeth yn y mathau o geisiadau a ddaeth drwodd; er enghraifft, gwelodd ffenestr 2 y bidiau mwyaf llwyddiannus ond roedd y grantiau a geisiwyd yn llawer llai gan amlaf. Roedd bidiau llai yn llwyddiannus hefyd yn ffenestr 5 yn dilyn newidiadau a wnaed gan y tîm i'r meini prawf dethol er mwyn annog mwy o brosiectau meithrinfeydd coed a chlefyd (Chalara) coed ynn (oedd fel arfer yn cynnwys sefydliadau llai).

3.7 Yn olaf, mae Tabl 3.3 isod yn dangos gwerth y grantiau a ddyfarnwyd i fuddiolwyr yn dilyn y cais cam 2, gan ddatgelu hyn: er bod y gyllideb £9m llawn wedi ei ddyrannu ar y cam DoDd ar draws y pum ffenestr, dim ond £7.2m a ddyrannwyd yn dilyn y cais llawn (80 y cant o'r targed).

**Tabl 3.3: Gwerth y cyllid grant a ddyrannwyd ar y cam ymgeisio llawn (cam 2) ac a'i hawliwyd hyd yn hyn**

| | Grantiau a ddyrannwyd i fuddiolwyr yn dilyn gwerthusiad cam 2 | % o grantiau wedi eu dyrannu i fuddiolwyr yn dilyn cymeradwyaeth cam 2 | % o'r holl grantiau a geisiwyd (cam DoDd) a ddyfarnwyd | Gwerth y grantiau a dalwyd hyd yn hyn | % o'r grantiau a ddyfarnwyd ar gam 2 sydd wedi eu talu hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffenestr 1 – 2016 | £1,594,196 | 76% | 35% | £1,553,178 | 97% |
| Ffenestr 2 – 2017 | £1,277,680 | 80% | 66% | £1,167,845 | 91% |
| Ffenestr 3 – 2018 | £1,190,379 | 88% | 27% | £1,178,609 | 99% |
| Ffenestr 4 – 2019 | £1,663,986 | 84% | 52% | £1,408,563 | 85% |
| Ffenestr 5 – 2021 | £1,463,641 | 74% | 37% | £1,086,723 | 74% |
| Cyfanswm | £7,189,882 | 80% | 39% | £6,394,918 | 89% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad o'r data am geisiadau grant a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

3.8 Esboniodd y tîm cyflawni mai un o'r rhesymau am y tanwariant hwn oedd na allent 'or-ymrwymo' cyllid rhag ofn y byddai pobl yn tynnu allan yn ystod y ffenestri cyllid. Felly, byddai unrhyw achos o dynnu allan o'r cam DoDd yn achosi tanwariant. Ond, rydym yn deall bod y cyfyngiad hwn wedi ei gyflwyno dim ond ar ôl Adroddiad Archwilio Cymru ym mis Mehefin 2020 a oedd yn hanfodol ar gyfer arfer LIC o gynyddu grantiau ar adeg y gwerthuso ac yn ystod bywyd y prosiect, ac arweiniodd hyn at gyfyngu dyraniad DoDd i'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer y ffenestr honno[17]. Felly, dim ond y cynllun yn ffenestr 5 fyddai wedi cael ei heffeithio gan y cyfyngiad hwn. Efallai mai'r cyfyngiad mwyaf oedd bod y cyllidebau wedi eu dyrannu bob yn flwyddyn, a bod unrhyw danwariant yn dychwelyd i'r 'pot' RhDG ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer blaenoriaethau eraill. Felly, doedden nhw ddim yn gallu symud diffyg mewn cyllid o un ffenestr i'r llall.

3.9 Yn ddiddorol, bu'r tîm yn arbrofi gyda dyrannu'r cyllid yn wahanol yn ystod y ffenestr olaf drwy agor tair cydran o fewn ffenestr 5 (yn y bôn, roedd y rhain yn gweithredu fel 'is-ffenestri' o fewn y gronfa, gyda'r cyllid yn cael ei weinyddu mewn tri chyfnod gwahanol, yn hytrach na chael un cyfnod agored drwy gydol y ffenestr fel y gwelsom o'r blaen). Efallai y byddai hyn wedi bod yn ateb, drwy symud diffyg cyllid

[17] Archwilio Cymru, 'Sicrhau bod Grantiau Datblygu Gwledig a Ddyfarnwyd heb Gystadleuaeth yn rhoi Gwerth am Arian', Mehefin 2020.

rhwng camau 1 a 2 o un gydran i'r nesaf; ond, ni fanteisiodd y tîm ar y cyfle hwnnw, a dim ond £1.97m o'r cyllid a gafodd ei ddyrannu ar gam y datganiadau o ddiddordeb yn Ffenestr 5, a oedd ychydig yn is na'r gyllideb. Yn wir, yn Ffenestr 5 y cafwyd y nifer uchaf yn tynnu allan rhwng cam 1 a cham 2, a dim ond 74 y cant o'r dyraniad cyllid DoDd a gafodd ei ddyfarnu ar ôl y ceisiadau cam 2.

3.10 Mae Tabl 3.3. hefyd yn dangos maint y cyllid a dalwyd i fusnesau hyd yn hyn, sef £6.4m neu 89 y cant o'r gwerth a ddyranwyd. Mae hyn yn gyfatebol â 71 y cant o'r gyllideb gyfan. Bydd hyn yn cynyddu unwaith mae'r 19 prosiect gweithredol, yn bennaf o ffenestr 5, yn dod i ben. Ar sail y gydran o grantiau a dalwyd yn ffenestri 1–3, byddem yn disgwyl i'r swm terfynol a delir fod yn gyfatebol â 77 y cant o'r gyllideb gyfan, gan gynrychioli diffyg o 23 y cant.

**Adolygiad o'r data DPA**

3.11 Mae Tabl 3.4 isodwedi ei seilio ar ddata a rannwyd gan LIC yn gynnar yn 2023. Mae'n dangos bod y cynllun wedi cefnogi llai o weithredoedd nag y rhagwelwyd (74 y cant o'r targed), er ei fod wedi perfformio'n dda yn erbyn y targedau DPA eraill i gyd. Mae wedi mynd y tu hwnt i'r targed ar gyfer creu swyddi ac wedi gwneud yn llawer gwell na'r targed ar gyfer diogelu swyddi. Mae hefyd wedi cyflawni'n llawer gwell na'r targed ar gyfer swyddi a ddiogelwyd. Yn ogystal, mae wedi cyflawni'n llawer gwell na'r targed am yr arwynebedd o goetir a gefnogir, a oedd fwy na 45 gwaith y targed.

**Tabl 3.4: Cyflawniad yn erbyn y targedau DPA (dadansoddiad lefel y cynllun)**

| | DPA | Targed (5C) | Targed (6A) | Targed (yn gyffredinol) | Y cyfanswm gyflawnwyd hyd yn hyn | Y % a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion CE | Nifer y gweithredoedd a gefnogwyd ar gyfer buddsoddiadau mewn technoleg coedwigaeth a marchnata/prosesu sylfaenol | 100 | 20 | 120 | 89 | 74% |
| | Y buddsoddiad cyfan (cyhoeddus a phreifat) | €16,693,381 | €3,337,074 | €20,030,455 | €18,718,391[18] | 91% |

[18] Ni rannwyd ffigur cyflawniad ar gyfer y DPA hwn. Fodd bynnag, rydym wedi cyfrifo'r cyflawniad drwy ddefnyddio'r data am wariant y grant. Yn rhan o hyn, rydym wedi tybio bod y gyfran o'r dyraniad grant a

| | DPA | Targed (5C) | Targed (6A) | Targed (yn gyffredinol) | Y cyfanswm gyflawnwyd hyd yn hyn | Y % a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y gwariant cyhoeddus (€) | €6,677,352 | €1,334,830 | €8,012,182 | €7,392,234[19] | 92% |
| | Nifer y swyddi a grëwyd drwy weithredoedd a gefnogwyd, ar gyfer buddsoddiadau mewn technoleg coedwigaeth a marchnata/prosesu sylfaenol | 10 | 0 | 10 | 13 | 130% |
| LIC | Yr ardal o goetiroedd (ha) a gefnogwyd | | | 400 | 18,141 | 4,535% |
| | Nifer y swyddi a ddiogelwyd drwy brosiectau a gefnogir | | | 40 | 227 | 567% |

Ffynhonnell: Data am darged a chyflawniad DPA a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2023

3.12 Nodwn, fodd bynnag, bod y ffigur targed yn ymddangos yn gymedrol iawn. Er enghraifft, mae llwyddo i greu 10 swydd yn gyfatebol â chreu un swydd fesul £900,000 sy'n cael ei wario yng nghyd-destun y gyllideb £9,000,000 sydd ar gael i ymgeiswyr. Hyd yn oed o gynnwys y ffigur ar gyfer swyddi a ddiogelwyd (h.y. 50 swydd i gyd), mae hyn yn gyfatebol â chreu neu ddiogelu un swydd fesul £180,000 o'r cyllid grant. Mae hyn yn llawer is na'r gymhareb ar gyfer y Cynllun Buddsoddi Busnes Bwyd (CBBB), er enghraifft, sy'n gynllun buddsoddi cyfalaf cymaradwy a ariannwyd dros yr un cyfnod, drwy'r RhDG yng Nghymru. Y gymhareb i'r CBBB yw creu un swydd fesul £57,537 o gyllid grant a chreu neu ddiogelu un swydd fesul £33,566 o gyllid grant.

3.13 Fel y trafodwyd yn yr adran flaenorol, mae'r cynllun yn is na'i darged ar gyfer gwariant cyhoeddus (h.y. y cyllid grant a wariwyd). Ond, mae'r cynllun wedi cyflawni 92 y cant o'r targed ac, ar sail y maint o gyllid grant gwirioneddol a dalwyd yn ffenestri 1 i 3 (tua 96 y cant), rydym yn rhagweld y bydd y cynllun yn cyrraedd ei darged, fwy neu lai, o ddosbarthu tua €8m mewn grant cyllid erbyn diwedd y cyflawni (mae'r dyddiad cwblhau ariannol ar gyfer 19 prosiect ym mis Mawrth neu

wariwyd hyd yn hyn (89 y cant) yn cynrychioli'r gyfran o'r cyfanswm buddsoddiad y bwriadwyd ei wneud (h.y. yn cynnwys y cyllido cyfatebol). Mae'r ffigur mewn punnoedd sterling wedi ei drosi i'r uned arian cyfred EUR drwy ddefnyddio'r gyfradd drosi sydd wedi ei hamlinellu yn nata DPA LIC (tua 1:1.16).

[19] Ni rannwyd ffigur cyflawniad ar gyfer y DPA hwn. Fodd bynnag, rydym wedi cyfrifo'r cyflawniad drwy ddefnyddio'r data am wariant grant a'i droi i'r uned arian cyfred EUR drwy ddefnyddio'r gyfradd drosi a amlinellir yn nata DPA LIC (tua 1:1.16).

Fehefin 2023). Rydym yn nodi, fodd bynnag, bod y ffigur hwn yn is na'r gyllideb gyfan o £9m. Dylid nodi bod y dyraniad ariannol (gwariant targed) yn deillio o'r cynllun dangosydd lefel rhaglen cymeradwy cyfredol (pumed addasiad) ac nid yw'n cynrychioli'r targed gwreiddiol. Mae'r data dyrannu ariannol yn cael ei addasu'n barhaol drwy gydol y rhaglen i adlewyrchu'r rhagfynegiad ar y pryd; ac felly, nid ydynt yn adlewyrchu perfformiad y cynllun yn erbyn yr hyn a fwriadwyd yn wreiddiol. Mae cymharu'r gwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb ar gyfer y cynllun (h.y. £9m) yn rhoi adlewyrchiad gwell o berfformiad.

3.14 Yn olaf, mae'r targedau ar gyfer dangosyddion y Comisiwn Ewropeaidd (CE) yn Nhabl 3.4 yn cael eu rhannu i ddwy flaenoriaeth, sef y rhai yr oedd y cynllun yn darparu yn eu herbyn. Y blaenoriaethu hyn yw Blaenoriaeth 5c ('Hyrwyddo effeithiolrwydd adnoddau a chefnogi'r symudiad tuag at economi carbon isel a gwydn i hinsawdd'*)* a Blaenoriaeth 6a ('Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol, gostwng tlodi a datblygiad economaidd mewn ardaloedd gwledig*').* Mae'r tabl yn dangos bod y cynllun yn bwriadu i'r mwyafrif o'i ganlyniadau gael eu cofnodi yn erbyn Blaenoriaeth 5c sydd â ffocws uwch ar yr amgylchedd, yn hytrach na Blaenoriaeth 6a sydd â ffocws uwch ar yr economi. Yn erbyn Blaenoriaeth 5, cofnodwyd bod 83 y cant o'r targedau ar gyfer cefnogi gweithredoedd a buddsoddi wedi eu cyflawni, ynghyd â 100 y cant o'r targed ar gyfer creu swyddi. Cadarnhaodd aelodau'r tîm cyflawni bod hyn wedi ei seilio ar y mathau o geisiadau yr oeddent yn eu disgwyl. Fodd bynnag, wrth adolygu'r ceisiadau, penderfynodd LlC bod y mwyafrif yn alinio'n agosach â Blaenoriaeth 6a a'u bod wedi eu cofnodi felly. Yn wir, rydym wedi derbyn data gwybodaeth rheoli gan y tîm am y flaenoriaeth y mae pob prosiect a ariannwyd drwy ffenestri 1-4 wedi eu haseinio yn ei herbyn, sy'n datgelu bod 79 y cant wedi eu cofnodi yn erbyn Blaenoriaeth 6a.

**Data am lefel y prosiect**

3.15 Mae'r adolygiad o'r data sydd wedi'i gydgrynhoi ar draws y cynllun (uchod) wedi ei gefnogi gan adolygiad o'r data DPA ar lefel y prosiect lle cytunwyd ar ffigurau targed ar y cam DoDd ac y casglwyd data am y cyflawniad gwirioneddol yn ystod yr ymweliadau *in-situ*. Nodwch nad oedd hyn yn bosibl ar gyfer buddiolwyr ffenestr 5 (20 achos), am nad yw'r ymweliadau *in-situ* wedi digwydd eto. Roedd rhai bylchau

eraill hefyd lle nad oedd y data ar gael yn yr adroddiadau DoDd neu *in-situ*. Felly, mae'n bwysig nodi nad yw'r dadansoddiad wedi ei seilio ar gofnod llawn – mae'r ffigurau wedi eu seilio ar rhwng 36 a 47 o achosion (49 i 64 y cant o'r holl brosiectau), fel y gwelwn ym mhenawdau Tabl 3.5 (gwelwch isod).

3.16 Mae dadansoddiad ar lefel y prosiect yn dangos unwaith eto bod y cyflawniad wedi goruchafu ar y targedau diogelu swyddi a chreu swyddi, gan ddangos bod buddiolwyr wedi ymrwymo ar y cyd i gyflawni ymhell y tu hwnt i dargedau'r cynllun cyfan ac yn gallu rhagori ar yr hyn roedden nhw wedi ymrwymo i'w gyflawni. Mae hyn yn awgrymu y dylai targedau'r cynllun fod yn fwy uchelgeisiol. Mae hyn hyd yn oed yn fwy amlwg mewn perthynas â'r DPA ar gyfer yr ardal o goetir a gefnogir, lle'r oedd buddiolwyr wedi ymrwymo i gefnogi ychydig yn llai na 20,000ha yn y 47 achos a adolygwyd gennym, sydd 50 gwaith y targed ar gyfer y cynllun cyfan (400). Er bod yr adroddiadau *in-situ* yn awgrymu na allai'r buddiolwyr gefnogi faint o dir a amlinellwyd yn eu DoDd, mae'n dal i fod yn llawer uwch na'r targed ar lefel y cynllun. Byddai hyn yn awgrymu nad oedd y targedau DPA swyddogol yn ddigon uchelgeisiol, tra bo ceisiadau'r prosiect yn rhy uchelgeisiol – efallai bod yr ail wedi eu cymell gan agwedd gwerth am arian y meini prawf sgorio, lle mae maint y coetir yn bwysig – po fwyaf yw arwynebedd y coetir a gynigir sy'n cael ei gefnogi, y gorau maen nhw'n sgorio.

**Tabl 3.5: Cyflawniad yn erbyn targedau DPA (dadansoddiad ar lefel y prosiect)**

| | Swyddi a ddiogelwyd FTE (gwirioneddol) – n=40 | Ardal o goetiroedd a gefnogwyd (ha) – n=47 | Gweithredoedd – n=47 | Swyddi a grëwyd (FTE) – n=36 |
|---|---|---|---|---|
| Targed | 83.5 | 19,978 | 52 | 45 |
| Gwirioneddol | 103.6 | 10,265 | 51 | 49 |
| Y % a gyflawnwyd | 124% | 51% | 98% | 110% |

Ffynhonnell: Adolygiad o'r ffurflen DoDd a data'r adroddiad *in-situ*

### Adolygiad o'r gwariant CBBP cyfan

3.17 Ochr yn ochr â darparu cyllid grant, roedd costau eraill yn gysylltiedig â gweinyddu'r cynllun gan TGC. Er nad yw TGC wedi cofnodi'r amser penodol a gymerwyd gan y staff i gwblhau'r holl brosesau gweinyddol, gwiriadau a rheolyddion sy'n ofynnol ar

gyfer cyflawni cynlluniau'n gydsyniol o dan y RhDG 2014-2020, mae'r tîm wedi darparu amcangyfrif (a gyfrifiwyd yn ôl-syllol gan ddefnyddio data a gasglwyd am geisiadau a hawliadau, y cyllid a ddyfarnwyd o dan gymorth technegol, a gwybodaeth weithrediadol). Ar sail hyn, cyfrifir mai cost weinyddol y cynllun yw oddeutu £0.57m. Os byddwn yn ychwanegu hyn at gyfanswm y cyllid grant a ddyranwyd (gwelwch Dabl 3.3 uchod), mae'n darparu amcangyfrif gorau o £7,759,882. Mae hyn yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel, oherwydd nid yw, er enghraifft, yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â'r amser a dreuliwyd gan swyddogion polisi LIC. Fodd bynnag, byddwn yn defnyddio'r ffigur hwn fel sail ar gyfer cyfrifo AoF y cynllun.

**Casgliadau**

3.18 I grynhoi, nid yw'r CBBP wedi llwyddo'n llwyr i fuddsoddi'r cyllid grant cyfan a ddyrannwyd i'r cynllun, ond mae'n debygol ei fod wedi dosbarthu tua 77 y cant o'r cyllid grant erbyn diwedd y broses a bydd wedi cyflawni targed swyddogol y CE (fel y gwelwn yn Nhabl 3.4). Gallwn esbonio'r prif reswm am y diffyg mewn cyllid fel yr anallu i ail ddosbarthu diffygion o un ffenestr i'r llall. Llwyddodd y cynllun i ragori ar y mwyafrif o dargedau DPA a CE Llywodraeth Cymru, er mae'n ymddangos bod y rhain wedi bod yn gymhedrol iawn ac, felly, mae'r cipolygon i'r GaA a gynhyrchwyd yn rhai cyfyngedig. Felly, rydym yn ategu'r adolygiad hwn gydag asesiad manylach o'r canlyniadau a'r GaA a gynhyrchwyd yn nes ymlaen yn yr adroddiad.


# 4. Proffil y prosiectau a'r busnesau a gefnogwyd

4.1 Mae'r bennod hon yn defnyddio'r data Gwybodaeth Rheoli ochr yn ochr ag adborth gan fuddiolwyr er mwyn sicrhau gwybodaeth am y mathau o brosiectau a busnesau sy'n cael eu cefnogi. Bydd hyn yn rhoi mwy o gyd-destun mewn perthynas â'r hyn y mae'r cynllun wedi ei gyllido, a'r effeithiau a fwriadwyd.

**Y mathau o fusnesau sy'n sicrhau cymorth**

4.2 Mae Ffigur 4.1 yn dangos bod cymysgedd o wahanol fathau o fusnesau wedi derbyn cymorth, yn ymwneud â gwahanol rannau o'r gadwyn gyflenwi pren, o'r cynaeafu i'r prosesu. (Nodwch y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb, e.e. roedd rhai'n gweithredu mewn cynaeafu a phrosesu coed). Rydym hefyd yn deall bod rhai meithrinfeydd coed wedi eu cefnogi yn y ffenestr derfynol, er nad oedd unrhyw un wedi cael eu harolygu ac, felly, ni adroddir amdanynt yn y siart isod.

**Ffigur 4.1: Mathau o fusnesau sy'n derbyn ac yn gwneud cais am gefnogaeth**




Ffynhonnell: Arolygon buddiolwyr (n=31) a'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr

4.3 Mae'r data hefyd yn dangos bod nifer o fusnesau fferm wedi cael eu cefnogi, gyda 29 y cant o'r sampl o arolygon buddiolwyr (9/31) yn gweithredu fferm. Mae hyn yn cynrychioli cyfatebiaeth gref gydag un o amcanion strategol y cynllun mewn perthynas â dod â choetiroedd heb eu rheoli (sydd yn aml ar goetiroedd fferm) o

dan reolaeth gynaliadwy. I'r un graddau, roedd mwy o'r sampl o'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr yn gweithredu busnesau fferm, gan awgrymu bod cyfle efallai i ddarparu mwy o weithgarwch yn erbyn yr amcan strategol hwnnw. Yn wir, dywedodd 64 y cant o'r busnesau fferm yn arolwg y rhai nad ydynt yn fuddiolwyr (9/14) bod eu cais yn aflwyddiannus (yn hytrach nag anghymwys) neu eu bod wedi penderfynu peidio mynd ymlaen ag o. Esboniodd yr ymatebwyr mai'r rheswm syml oedd nad oeddent wedi sicrhau digon o bwyntiau neu eu bod yn "*rhy fach*", gan awgrymu unwaith eto bod cyfle efallai i ddarparu mwy o weithgarwch yn y maes hwn.

**Maint a thwf/cynaliadwyedd busnesau**

4.4 Mae Tabl 4.1 yn dangos sut mae'r cynllun wedi cefnogi BBaCh a (bron bob tro) fentrau micro, a rhai bach iawn fel arfer. Yn wir, roedd tua hanner (48 y cant; 10/21) o ymatebwyr yr arolwg buddiolwyr a ddarparodd ddata am drosiant wedi cynhyrchu llai na £100k cyn cael cymorth gan y CBBP. Mae'r tabl yn awgrymu bod meintiau'r buddiolwyr a'r rhai nad ydynt yn fuddiolwyr yn weddol debyg, gan adlewyrchu natur y sector (sydd â nifer isel iawn o fentrau mawr a maint canolig).

**Tabl 4.1: Trosiant busnesau cyn derbyn/gwneud cais am gymorth CBBP**

| | Buddiolwyr | | Rhai nad ydynt yn fuddiolwyr | |
|---|---|---|---|---|
| Busnesau newydd | 1 | 5% | 1 | 3% |
| Hyd at £25k | 5 | 24% | 4 | 11% |
| £25,001 - £50k | 1 | 5% | 3 | 8% |
| £50,001 - £100k | 3 | 14% | 7 | 19% |
| £100,001 - £250k | 3 | 14% | 12 | 33% |
| £250,001 - £500k | 5 | 24% | 3 | 8% |
| £500,001 - £1m | 2 | 10% | 3 | 8% |
| >£1m | 1 | 5% | 3 | 8% |

Ffynhonnell: Arolygon buddiolwyr (n=21) a'r rhai nad ydynt yn fuddiolwyr (n=36)

4.5 Casglwyd data pellach ynglŷn â chanfyddiadau busnesau am eu cynaliadwyedd a'u dyheadau o ran tyfu cyn derbyn cymorth CBBP (gwelwch Dabl 4.2 dros y dudalen). Maen nhw'n datgelu darlun cymysg am y cyntaf, gyda 38 y cant (10/26) o fuddiolwyr yn rhoi sgôr isel i ganolig (h.y. 1 i 3 allan o 5) am gynaliadwyedd eu model busnes. O'i gymharu â hyn, dim ond 13 y cant (5/39) o'r rhai nad ydynt yn fuddiolwyr a roddodd sgôr isel i ganolig, gan awgrymu bod y cynllun efallai wedi llwyddo i

dargedu'r cymorth at fusnesau oedd â dyfodol mwy ansicr ac oedd efallai angen y cymorth i greu model mwy cynaliadwy.

4.6 Darparodd bob buddiolwr bron (25/26; 96 y cant) sgôr uchel mewn perthynas â dyhead i dyfu'r busnes, tra bo'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr wedi rhoi sgôr hyd yn oed yn uwch, gyda 77 y cant (30/39) yn sgorio eu huchelgeisiau fel 5/5 o'i gymharu â 54 y cant (14/26) o fuddiolwyr. Gallai hyn eto awgrymu bod y grŵp o fuddiolwyr mewn sefyllfa fwy bregus a'u bod yn fwy tebygol o ganolbwyntio ar ddatblygu model cynaliadwy nag oedd eu cyfoedion nad ydynt yn fuddiolwyr.

**Tabl 4.2: Cynaliadwyedd busnesau a'u huchelgeisiau i dyfu**

| | **Roedd gen i/Roedd gennym ni fodel busnes cynaliadwy** | | **Roedd gen i/Roedd gennym ni ddyheadau i dyfu'r busnes** | |
|---|---|---|---|---|
| | Buddiolwyr | Rhai nad ydynt yn fuddiolwyr | Buddiolwyr | Rhai nad ydynt yn fuddiolwyr |
| 1 – Ddim o gwbl | 4% | 0% | 0% | 0% |
| 2 | 8% | 5% | 0% | 0% |
| 3 | 27% | 8% | 4% | 8% |
| 4 | 27% | 46% | 42% | 15% |
| 5 – I raddau mawr | 35% | 41% | 54% | 77% |

Ffynhonnell: Arolygon buddiolwyr (n=26) a rhai nad ydynt yn fuddiolwyr (n=39)

4.7 Gofynnwyd i fuddiolwyr roi manylion eu cynlluniau twf ac esboniodd y buddiolwyr eu bwriadau i fynd i mewn i farchnadoedd newydd (yn enwedig gwerthu coed tân a chynhyrchion biomas) a chyrchu ardaloedd coetir newydd, tra bo eraill wedi mynegi angen i ddod yn fwy cynhyrchiol:

> *"Ceisio cadw'r costau i lawr a buddsoddi mewn peiriannau newydd a fydd yn gwneud y busnes yn ddarbodus ac a fydd yn golygu y gallwn fynd i mewn i farchnadoedd newydd er mwyn cynaeafu tir newydd anhygyrch."* (Arolwg Buddiolwyr)

> *"Fy nod oedd tyfu'r busnes o fusnes rhan amser, ategol i fod yn fusnes llawn amser. Roeddem eisiau cynyddu maint y coed tân a gynhyrchwyd gennym yn sylweddol a chynyddu ein sail cwsmeriaid o gwsmeriaid manwerthu i rai domestig lleol, i gynnig prosesu coed tân ar gontract hefyd i landlordiaid eraill. Yr unig ffordd o sicrhau'r cynnydd hwn mewn capasiti oedd drwy gynyddu*

mecaneiddio ac awtomeiddio oedd yn gofyn cael prosesydd pren. Roedd cost yr offer hwn yn rhy uchel i'r busnes heb y cyllid gan CBBP*."* (Arolwg Buddiolwyr)

"Ni allem ateb y galw. Roeddem angen mwy o beiriannau i ateb y galw ac fel y gallem gyflogi mwy o staff." (Arolwg Buddiolwyr)

"Roeddem yn bwriadu cyflogi un neu ddau o bobl ychwanegol a chymryd Prentis, oedd yn rhywbeth newydd i ni, ac mae'r ddau beiriant wedi gadael i ni wneud hynny." (Arolwg Buddiolwyr)

4.8 Tynnodd eraill sylw at y ffordd yr oedd y ffocws ar gynnal eu gweithrediadau, fel y mae wedi ei amlinellu yn Nhabl 4.2:

"Roedd y cyllid yn ymwneud fwy â phrynu'r offer i gadw'r busnes yn gystadleuol a diogelu cyflogaeth. Roeddem wedi colli allan ar nifer o gontractau, am nad oedd gan yr offer oedd gennym y capasiti oedd yn ofynnol i wneud gwaith ar y raddfa honno." (Arolwg Buddiolwyr)

**Maint prosiectau**

4.9 Roedd y grantiau CBBP yn fuddsoddiadau sylweddol i'r buddiolwyr yn y mwyafrif o achosion. Yn wir, mae ein dadansoddiad o'r gymhareb rhwng maint y grant a'r trosiant yn dangos hyn: yn hanner yr achosion a adolygwyd gennym (10/20), roedd y grantiau'n fwy na 50 y cant o drosiant gwaelodlin y buddiolwyr – mae hyn yn cynnwys pedwar achos (20 y cant o'r sampl) lle'r oedd y grant tua dwywaith maint y trosiant gwaelodlin, yn ogystal â dau achos (10 y cant) pan oedd y grant fwy an 10 gwaith y trosiant gwaelodlin. Felly, roedd graddfa'r buddsoddiad yn ddigon mawr i weddnewid eu busnesau i lawer o fuddiolwyr.

4.10 Yn ôl data Gwybodaeth Rheoli CBBP, dyfarnwyd y gyfradd ymyrraeth uchaf o 40 y cant i 86 y cant o brosiectau (64/74), tra bo'r 10 arall ond ychydig bach yn is na 40 y cant, gyda'r cyllid grant yn cyfrif am 39 y cant o'r costau prosiect cyfan yn gyffredinol. Mae hyn yn golygu bod £11,060,308 o'r gwariant cyfan ymhob un o'r 74 o brosiectau (£18,250,190) wedi digwydd drwy gyllid cyfatebol.

4.11 Mewn perthynas â maint y coetiroedd dan sylw, mae data gwybodaeth rheoli CBBP yn dangos mai'r cyfartaledd i'r holl ymgeiswyr oedd 430ha (399ha i'r ymgeiswyr oedd yn aflwyddiannus ar y cam DoDd, a 532ha i'r buddiolwyr). Mae prosiectau'r

buddiolwyr yn debygol o fod yn fwy oherwydd yr elfen gwerth am arian o fewn y meini prawf sgorio, lle cafodd y ceisiadau oedd yn ymrwymo i ymdrin ag ardaloedd mwy o goetir sgôr uwch. Roedd Tabl 3.5 yn y bennod ddiwethaf yn dangos bod arwynebedd gwirioneddol y coetiroedd yn edrych fel petaent ond tua hanner y maint yr ymrwymwyd iddo yn ystod y cam DoDd. Mae hyn yn awgrymu bod rhyw elfen yma o 'chwarae'r system'.

**Cymhellion i gyrchu cymorth**

4.12 Cafodd y buddiolwyr eu cymell i ddechrau gan awydd i dyfu ac roeddent wedi enwi gyrwyr economaidd (90 y cant), tra bo gyrwyr amgylcheddol yn elfen eilaidd (45 y cant). Dywedodd dwy ran o dair (20/30) bod cyllid wedi bod yn rhan o'u cynllun twf, a dywedodd 60 y cant (18/30) eu bod yn gwneud y buddsoddiad i gynyddu capasiti/allbwn er mwyn ateb y galw.

4.13 Er bod y rhai nad oeddent yn fuddiolwyr wedi dweud hefyd eu bod wedi eu cymell yn bennaf gan awydd i dyfu eu busnes (dywedwyd hyn gan 79 y cant neu 31/39), roedd llawer llai wedi dweud bod angen iddynt gynyddu capasiti er mwyn ateb y galw (dim ond 15 y cant neu 6/39 a ddywedodd hyn) ac efallai bod hyn yn awgrymu bod y grŵp buddiolwyr mewn sefyllfa well. Dim ond ychydig llai na hanner y buddiolwyr (47 y cant; 14/30) oedd eisiau'r cymorth i helpu i gynyddu neu o leiaf ddiogelu swyddi. Mae hyn eto yn llawer uwch na'r gyfran o bobl nad ydynt yn fuddiolwyr a ddywedodd yr un peth (dim ond 13 y cant neu 5/39 ohonynt ddywedodd hynny). Soniodd hanner y buddiolwyr hefyd am awydd i gynyddu effeithlonderau neu ostwng costau, sy'n yrrwr economaidd arall:

> "Cadw'r busnes yn gystadleuol drwy gael offer gwell a oedd yn fwy cynhyrchiol ac effeithiol. Cynyddu'r nifer o gontractau y gallwn dendro amdanynt, oherwydd byddai gennym y capasiti i wneud darnau mwy o waith." (Arolwg Buddiolwyr)

> "Ystyried dod â choetiroedd fferm o dan reolaeth am y tro cyntaf a chreu swyddi drwy ddechrau gweithrediad cynaeafu pren. Byddai'r grant CBBP yn cael ei ddefnyddio i brynu'r offer a fyddai'n gadael i ni ddechrau'r gweithrediad hwn. Roeddem hefyd yn gobeithio cynyddu'r maint o goetiroedd ar y fferm." (Arolwg Buddiolwyr)

4.14 Soniodd bron i hanner y busnesau am yrwyr amgylcheddol, a dywedodd 36 y cant (11/30) eu bod eisiau gwella amodau'r coetiroedd, tra bo naw eisiau dechrau rheoli coetiroedd hygyrch (amcan strategol allweddol), roedd chwech eisiau gwarchod coetiroedd yn well (e.e. drwy ddefnyddio offer llai dwys), ac roedd pedwar wrthi'n ceisio rheoli problemau clefyd (Chalara) coed ynn.

4.15 Soniodd nifer o'r busnesau fferm eu bod yn dymuno datblygu'r gallu i reoli coetiroedd ar eu ffermydd, ac roedd rhai ohonynt wedi dibynnu ar gontractwyr i wneud hynny yn y gorffennol:

> "Roedd gan y fferm ardal o goetir nad oedd yn cael ei ddefnyddio ac roedd nifer o goed wedi heintio ac ati yno oedd angen eu cynaeafu. Roeddwn eisiau defnyddio'r cyllid CBBP i brynu offer a fyddai'n caniatáu i mi dorri coed heintus i lawr a'u defnyddio i gynhyrchu biomas i'n boeleri biomas ni ein hunain, a'i werthu'n lleol, a hefyd werthu pren i'r fasnach leol. Cyn CBBP roeddem yn dibynnu ar gontractwyr i ddod i mewn a thorri coed oedd mewn cyflwr peryglus i lawr. Byddai'r offer yn caniatáu i mi gadw'r coetiroedd yn gynaliadwy." (Arolwg Buddiolwyr)

**Dadansoddiad o'r data ar ffurflenni DoDd y prosiectau**

4.16 Ochr yn ochr â dadansoddi'r arolwg, rydym hefyd wedi adolygu'r hyn a nodwyd gan fuddiolwyr ar y ffurflenni DoDd, sy'n rhoi rhagor o gipolygon i ni ar y mathau o brosiectau a gefnogir a beth roedd buddiolwyr yn ceisio ei gyflawni. Unwaith eto, roedd buddiolwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar yr angen i gynyddu capasiti er mwyn ateb y galw wrth ddarparu eu disgrifiadau o'u prosiect. Hyn, yn ogystal ag uchelgais i ddod â choetiroedd anhygyrch o dan reolaeth gynaliadwy, oedd y prif ffocws yn y disgrifiadau prosiect ar y ffurflenni DoDd (cyfeiriwyd at y ddau mewn 45 y cant, neu 35/77 o'r disgrifiadau prosiect DoDd). Mae'r data'n dangos hefyd bod llawer o'r prosiectau (23 y cant neu 17/77 o ddisgrifiadau prosiect DoDd) yn cynnwys proses o 'deneuo' y coetiroedd i gynhyrchu cynnyrch o well ansawdd a mwy gwerthadwy, tra bo amrywiaeth o weithgareddau ac uchelgeisiau eraill wedi eu nodi hefyd, fel cynyddu cynhyrchiad, mynd i mewn i farchnadoedd newydd, effeithlonderau a chyflogaeth:

“Dim ond graddiant o 20-25 y cant ar lethrau y mae’r offer cynaeafu a ddefnyddiwn ar hyn o bryd yn gallu ei ddringo. Rydym yn cydnabod yr heriau gwahanol sy’n datblygu yn y diwydiant ac mae’r galw’n cynyddu am dynnu pren ar lethrau serth ac am wneud gwaith teneuo. Felly, rydym yn bwriadu buddsoddi mewn cynaeafwr wyth olwyn i’n galluogi i ddringo llethrau hyd raddiant o 40 y cant. Byddai’r cynaeafwr sydd ag offer arbennig, gyda chefnogaeth blaenyrrwr teneuo arbenigol, yn [ein galluogi] i weithio ar dir mwy serth i dynnu pren heb ei reoli ac i wneud hynny mewn ffordd gost-effeithiol.” (Dyfyniad o Ffurflen DoDd Buddiolwr)

“Nod y prosiect yw datblygu busnes coed tân a thorri coed presennol yr ymgeisydd mewn dau faes. Mae’r cyntaf mewn rheoli coetiroedd, dod â choetiroedd wedi’u hesgeuluso yn ôl dan reolaeth weithredol. Bydd y busnes yn buddsoddi mewn peiriant blaenyrrwr bach arbenigol sy’n gallu tynnu pren o leoliadau anhygyrch, ynghyd â threlyr i gludo’r peiriant arno. Yr ail fydd datblygu’r busnes tanwydd pren, cynyddu cynhyrchiad coed tân i ymateb i’r galw cynyddol. Byddwn yn cyflawni hyn drwy brynu prosesydd coed tân mecanyddol.” (Dyfyniad o Ffurflen DoDd Buddiolwr)

“Y prosiect yw gwella’r fforest drwy broses o deneuo rheolaidd a defnyddio’r pren a gynhyrchir o ganlyniad i’r gwaith i ddatblygu marchnadoedd pren lleol sy’n bodoli’n barod a rhai newydd.” (Dyfyniad o Ffurflen DoDd Buddiolwr)

4.17 Hefyd gwelwyd y canlynol yn ein hadolygiad o ymatebion i gwestiynau eraill ar y ffurflen DoDd.

- Roedd pum deg tri y cant yn teimlo y byddai eu prosiectau’n helpu i ddiogelu neu greu swyddi, a dywedodd 29 y cant y byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu i staff newydd a staff sydd yno’n barod diolch i’r peiriannau newydd a brynnir; er enghraifft: “Heb os, mae hyn wedi cynyddu capasiti ac efallai y bydd y cynnydd yn yr offer a weithredwn yn gofyn am aelodau ychwanegol o staff. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth lleol yn y tymor hir ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi.”
- Dywedodd 29 y cant y byddai eu prosiectau’n cynyddu ansawdd neu werth y pren; er enghraifft: “Bydd yn cynnwys tynnu’r coed ataliedig a choed o ansawdd

gwael i gael eu prosesu'n goed tân er mwyn gwella ansawdd y pren yn gyffredinol a gwerth y rhai sy'n dal i sefyll, yn ogystal â darparu buddion ecolegol a bywyd gwyllt."

- Dywedodd 23 y cant y byddai'n arwain at ehangu eu hallbwn i farchnadoedd lleol; er enghraifft: "Fy nod yw cefnogi busnesau adeiladu lleol drwy ganfod pren Cymreig lleol a'i brosesu o fewn y cwmni i ddarparu'r cyfraddau mwyaf cystadleuol."
- Disgrifiodd 21 y cant ohonynt sut y byddai eu prosiect yn cefnogi bioamrywiaeth, a thynnodd 19 y cant sylw at y ffordd yr oedd hyn yn cysylltu â'u gwaith i adfywio coetiroedd a diddymu rhywogaethau goresgynnol; er enghraifft: *"*Trwy adfywio'r coetiroedd drwy docio ac ail blannu, a fydd yn cynyddu eu stoc pren i lefelau iach unwaith eto. Bydd adfywio, teneuo a thocio fel hyn hefyd yn adfywio'r cynefin i rywogaethau eraill o ffawna a fflora allu ffynnu."
- Dywedodd deunaw y cant y byddai eu prosiect yn cynnwys amrywiaethu'r rhywogaethau coed neu blannu mwy o goed, sy'n gysylltiedig ag adeiladu gwrthsafiad i newid hinsawdd; er enghraifft: "Bydd y prosiect yn cynyddu amrywiaeth y rhywogaethau drwy blannu a rheoli coedwigoedd a thrwy gynyddu'r defnydd o rywogaethau conwydd bach a phren caled, yn cynnwys deunydd rhy fawr yn y felin."
- Cyfeiriodd 13 y cant at warchod coetiroedd drwy eu prosiectau; er enghraifft: "Byddai'n lleihau erydiad y pridd ac yn niweidio cynefinoedd naturiol drwy ostwng yr angen i gloddio llwybrau mynediad dianghenraid. Byddai'n […] gostwng faint o beiriannau y bydd angen eu defnyddio."

# 5. Canfyddiadau allweddol am gynllun a chyflawniad CBBP

5.1 Mae'r bennod hon yn archwilio rhai o'r prif wersi a ddysgwyd mewn perthynas â chynllun a chyflawniad y CBBP.

**Paramedrau a chynllun y grant**

5.2 Cafodd y penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â dyluniad y cynllun eu derbyn yn dda ar y cyfan gan yr ymgeiswyr, am fod llawer o gymorth gyda hyblygrwydd maint y grant – cafwyd sgôr cadarnhaol am briodoldeb maint y grant gan 94 y cant (29/31) o'r buddiolwyr a 79 y cant (30/38) o'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr. Yn ogystal, cafwyd ymateb gweddol bositif am y gyfradd ymyrraeth, lle'r oedd 65 y cant (20/31) o'r buddiolwyr yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r gyfradd o 40 y cant, a 74 y cant (29/39) o'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr yn dweud yr un peth. Yn olaf, roedd llawer yn fodlon gyda'r costau a'r gweithgareddau oedd yn gymwys, gyda 90 y cant (28/31) o'r buddiolwyr a 64 y cant (25/39) o'r rhain nad ydynt yn fuddiolwyr yn rhoi sgôr positif.


5.3 Ar bwynt mwy strategol, fodd bynnag, efallai y dylid nodi bod angen mwy o eglurder ynglŷn â'r hyn roedd y cynllun yn ceisio ei gyflawni a'r mathau o fuddsoddiadau y dylai eu gwneud. Er enghraifft, fel rydym wedi ei ddangos eisoes yn yr adroddiad, roedd disgwyliad y byddai gan y prosiectau ffocws amgylcheddol yn bennaf (h.y. yn ymdrin â Blaenoriaeth 5c), ond mae'n ymddangos bod gan y rhan fwyaf o'r gweithgarwch fwy o ffocws economaidd a gwell aliniad â Blaenoriaeth 6a. Efallai fod hyn yn pwyntio at ddiffyg ffocws strategol. Awgrymodd rhai o'r rhanddeiliaid allanol hefyd bod amwysedd ynglŷn â rôl y cynllun.

5.4 Mae gan y cynllun gylch gwaith eang iawn, sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o'r gadwyn gyflenwi a gydag amrediad eang o feysydd gwariant cymwys. Er bod hyn yn fanteisiol o ran cynyddu hyblygrwydd a chaniatáu mwy o ddewis i fuddiolwyr o ran yr hyn maent am fuddsoddi ynddo, efallai ei fod yn negyddu effaith a ffocws strategol y cynllun. Efallai y byddai cynllun buddsoddi a chanddo fwy o darged sy'n canolbwyntio ar amcanion strategol penodol yn fwy effeithiol ac yn gadael mwy o waddol ar ei ôl. Mae hon yn thema y byddwn yn edrych arni eto yn yr adroddiad.

### Y prosesau ymgeisio a gwerthuso

5.5 Cafwyd ymateb mwy cymysg gan fuddiolwyr mewn perthynas â'u boddhad gyda'r broses ymgeisio. Dywedodd llai na hanner (42 y cant; 13/31) eu bod yn fodlon, a dywedodd cyfran gyfartal eu bod yn anfodlon gyda'r agwedd hon (gwelwch Ffigur 5.1 isod), a rhoddodd yr 16 y cant oedd yn weddill sgôr niwtral (5/31). Roedd y rhai nad oeddent yn fuddiolwyr yn fwy beirniadol fyth o'r broses, fel y byddem yn ei ddisgwyl (o ystyried na roddwyd cyllid iddynt). Fodd bynnag, mae'r raddfa o anfodlonrwydd werth ei nodi, gyda 63 y cant (24/38) yn dweud eu bod yn anfodlon a dim ond 13 y cant (5/38) yn dweud eu bod yn fodlon â'r broses.

**Ffigur 5.1: Boddhad gyda'r broses ymgeisio**




Ffynhonnell: Arolygon buddiolwyr (n=31) a rhai nad ydynt yn fuddiolwyr (n=38)

5.6 Cytunodd aelodau'r tîm cyflawni fod problemau wedi codi gyda'r broses, a soniwyd am oedi hir – yn enwedig yn ystod y cais llawn ar gam 2, a ddigwyddodd yn bennaf oherwydd diffyg adnoddau yn y tîm TGC (gwelwch Dabl 5.1 i weld ein dadansoddiad o'r amser a gymerwyd i brosesu ceisiadau). Yn ogystal, er bod y cam DoDd wedi gweithio'n weddol o dda, nodwyd y gellid cael gwell dealltwriaeth o reolau'r cynllun efallai er mwyn sicrhau bod llai o fusnesau anghymwys yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais llawn: "O safbwynt y cwsmer, byddai'n rhwystredig dod drwy'r hanner cyntaf ac yna glywed nad oeddent yn gymwys."

5.7 Fodd bynnag, roedd aelodau'r tîm cyflawni'n teimlo mai'r cais llawn cam 2 oedd y prif rwystr, a nodwyd nad oedd cyfradd ddigonol yn mynd ymlaen o'r cam DoDd i'r

cam ymgeisio llawn. Mae hyn yn amlwg yn y data o'r ceisiadau grant, lle'r oedd 25 y cant o'r rheiny oedd yn symud ymlaen i ymgeisio'n llawn ar gam 2 (28/114) wedi tynnu allan o'r broses neu heb lwyddo i gyflwyno'r cais llawn mewn pryd ar gam 2, er bod pedwar y cant pellach (pump ymgeisydd) yn llwyddiannus ar gam 2 ond wedi terfynu'r broses yn gynnar.

5.8 Darparodd TGC ymateb pellach am yr amser a gymerwyd i brosesu ceisiadau gan nodi mai'r amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gais llawn gael ei asesu oedd 244 o ddiwrnodau (o ddyddiad derbyn hyd ddyddiad cynnig y grant). O'u rhoi yng nghyd-destun yr amser cyfan a gymerwyd i brosesu ceisiadau (498 o ddyddiau ar gyfartaledd — gwelwch Dabl 5.1), gallai hyn awgrymu bod y cam cyntaf yr un mor hir. Mae'r ffigur a gadarnhawyd gan TGC fwy na 2.7 gwaith yn hirach na'r targed o 90 diwrnod yr oeddent wedi ymrwymo iddo fel y cyfnod hiraf y byddent yn ei gymryd i ymdrin â'r ceisiadau.

5.9 Tynnodd aelodau'r tîm cyflawni sylw at y ffordd yr oedd yr oedi wedi ei waethygu gan ddigwyddiadau allanol fel Brexit, y pandemig COVID-19, a'r rhyfel yn Wcráin (a'r effeithiau cysylltiedig ar chwyddiant). Yn ôl y tîm: "Po hiraf y mae'n rhaid aros, y drytaf y mae pethau'n mynd. Gofynnwyd i rai dalu 30 y cant yn fwy nag y gwnaethant pan gawsant y dyfynbris cyntaf." I wneud pethau'n waeth, doedd dim hyblygrwydd o fewn y cynllun i gynyddu lefel y grant er mwyn cyfrif am gostau cynyddol yr offer (er gwaethaf y ffaith bod cyllideb ormodol ymhob ffenestr cyllid). Roedd yn rhaid iddynt lynu wrth yr hyn a gytunwyd yn wreiddiol yn y DoDd cyntaf.

5.10 Roedd hyn yn dilyn newid ym mhrosesau mewnol LIC am ddosbarthiad y cyllid RhDG lle, mewn ymateb i argymhellion Archwilio Cymru yn 2020, gwnaed y penderfyniad i roi cap ar yr holl ddyfarniadau grant yn y dyfodol a'r cap hwnnw fyddai gwerth y grant yr ymgeisiwyd amdano yn y DoDd gwreiddiol[20].

5.11 Nododd aelodau'r tim cyflawni ymhellach fod y diffyg cysylltiad rhwng y ddau gam ymgeisio, gyda dau dîm gwahanol yn gweithio gyda'r ddwy broses, yn ei gwneud yn anoddach sicrhau y gallai ymgeiswyr gael taith esmwyth drwy'r broses ymgeisio.

---

[20] Yn ôl TGC, roedd yr adroddiad '[Sicrhau bod Grantiau Datblygu Gwledig a Ddyfarnwyd heb Gystadleuaeth yn rhoi Gwerth am Arian]' a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ym mis Mehefin 2020 yn hanfodol ar gyfer arfer LIC o gynyddu grantiau yn ystod y gwerthuso ac yn ystod oes y prosiect a arweiniodd at y penderfyniad i roi cap ar grantiau, a'r cap hwnnw fyddai gwerth y grant yr ymgeisiwyd amdano yn y DoDd gwreiddiol.

Awgrymwyd, er ei bod yn rhesymol tynnu arbenigwyr i mewn pan fo'r angen e.e. i reoli'r agweddau ariannol, efallai y gellid cael mwy o gysondeb yn y tîm mewn perthynas â rheoli neu o leiaf oruchwylio'r broses ymgeisio. Rydym yn nodi bod hwn yn fater RhDG ehangach, yn hytrach nag un penodol i CBBP, am fod yr holl gynlluniau RhDG o'r natur hwn yn cael eu strwythuro yn yr un ffordd.

5.12 Yn olaf, tynnodd aelodau'r tîm cyflawni sylw at y ffaith bod y system TG wedi bod yn rhwystr arall o bosib. Cafodd ei ddisgrifio fel system "glonciog" y bydd busnesau coedwigaeth wedi cael trafferth ei rheoli (nododd rhai ymgeiswyr bod hyn yn broblem, fel yr ydym yn ei drafod isod).

**Adborth gan ymgeiswyr am y prif heriau**

5.13 Cafwyd awgrym yn ystod ein hymgynghoriad cwmpasu yng ngham 1 y gwerthusiad bod diffyg amser digonol i ymgeiswyr baratoi a chyflwyno eu DoDd. Pan ofynnwyd iddynt yn uniongyrchol am hyn, fodd bynnag, dywedodd 84 y cant (26/31) o fuddiolwyr a 79 y cant (30/38) o bobl nad ydynt yn fuddiolwyr nad oedd ganddynt ddigon o amser i baratoi at gyfer cam DoDd. Felly, nid yw hynny wedi bod yn broblem yn y broses ymgeisio ar y cyfan.

5.14 Pan ofynnwyd yn agored iddynt am yr heriau a wynebwyd ganddynt yn ystod y broses ymgeisio, roedd y mwyafrif yn teimlo ei fod yn rhy feichus ac yn cymryd gormod o amser (55 y cant neu 17/31 o'r buddiolwyr, a 29 y cant neu 10/35 o'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr), er bod llawer ohonynt wedi siarad am gymhlethdod cyffredinol y broses (39 y cant neu 12/31 o'r buddiolwyr, a 29 y cant neu 10/35 o'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr). Roedd mwy na thraean o'r buddiolwyr (39 y cant; 12/31) yn teimlo bod angen hurio ymgynghorydd i'w helpu i ddatblygu'r cais iddynt. Gellir cymharu hyn gyda dim ond 11 y cant (4/35) o'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr a ddywedodd yr un peth. Mae'r ffaith bod buddiolwyr bron bedair gwaith mor debygol o fod wedi talu am gymorth yn awgrymu ei fod wedi cael effaith ar y gyfradd lwyddiant, sy'n codi cwestiynau am natur cydraddoldeb y cynllun ac effeithiolrwydd y broses ddethol (h.y. nad y prosiectau gorau sy'n cael eu hariannu o anghenraid, ond hefyd yn rhannol ynglŷn â pha fusnesau sy'n ddigon mawr i sicrhau cymorth gan y sector preifat i ddatblygu eu bidiau).

5.15 Wrth gyfeirio at natur feichus y cais, soniodd rhai ymatebwyr ei fod yn ormodol o ystyried maint y grant a geisiwyd (nodwch fod maint y grant yn amrywio o lai an 3K i swm sylweddol uwch na £300k) neu faint eu busnes. Dywedodd wyth o'r rhai nad oeddent yn fuddiolwyr bod hyn yn broblem (gwelwch isod):

> "Yn gyffredinol, roedd y broses ymgeisio'n or-fiwrocratig ar gyfer grant mor fach, ac yn gofyn dwsinau o oriau o waith ar y laptop ac mae'r ymchwil ychwanegol yn wirion am grant o 14k." (Arolwg Buddiolwyr)

> "Nid oedd y ffurflen wedi ei pharatoi'n iawn. Roedd y ffordd yr oedd wedi ei geirio'n anodd iawn. Treuliais ychydig ddiwrnodau arni ac felly roeddwn yn teimlo'n rhwystredig iawn amdani. Roeddent yn honni yn yr hysbyseb ei bod i fusnesau fel ni, ond mae'n amlwg nad ydoedd." (Arolwg o'r rhai nad Oeddent yn Fuddiolwyr)

5.16 Roedd rhai pobl yn barnu fod y cynllun wedi ei lunio i fusnesau mwy oedd â'r gallu i wneud y math hwnnw o ymarfer. Mae hyn yn cysylltu â'r pwynt diwethaf o ran y ffaith bod cynifer o bobl wedi teimlo fod angen iddynt dalu am gymorth allanol, ac eto roedd yn broses un maint i ffitio pawb, ac mae hyn yn tueddu i gefnogi'r farn honno. Galwodd un ymgeisydd am system haenog a fyddai'n llai beichus wrth ymgeisio am grantiau llai. Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson hefyd gyda'r pwynt ehangach a nodwyd gan y tîm cyflawni am dueddfryd posibl tuag at fusnesau mwy:

> "Cystadlu â chwmnïau sydd wedi hen sefydlu ac sy'n cyflogi ymgynghorwyr/ arbenigwyr i wneud ceisiadau grant. Nid yw adnoddau o'r math yma ar gael i fusnes masnachwr unig sy'n cychwyn o'r newydd. Nod y CBBP i fod yw helpu mentrau gweddol fach […]. Ond mae'n ymddangos bod sefydliadau gweddol fawr dan fantais fawr." (Arolwg o'r rhai nad Oeddent yn Fuddiolwyr)

5.17 Roedd yr oedi a'r diffyg cyfathrebu gan y tîm LIC yn broblemau amlwg hefyd yn yr adborth gan ymgeiswyr. Roedd y rhai nad oeddent yn fuddiolwyr yn arbennig yn pwysleisio'r pwynt hwn wrth drafod yr heriau, gyda rhai'n nodi enghreifftiau lle nad oeddent wedi cael eu hysbysu o gwbl ac, mewn dau achos, digwyddodd hynny er gwaethaf y ffaith bod eu cais wedi llwyddo:

"Cawsom ein derbyn ond ni roddwyd gwybod i ni.  Y cwbl a ddigwyddodd oedd ei fod wedi ei ddiweddaru ar-lein heb hysbysiad e-bost neu alwad ffôn.  Erbyn i ni glywed, roedd y ffenestr wedi cau, felly roeddem wedi colli'r cyfle i gael cyllid." (Arolwg o'r rhai Nad Oeddent yn Fuddiolwyr)

"Gorfod cyflogi ymgynghorwyr i'w lenwi, am ei fod yn amhosibl ei wneud eich hun. Y llinell amser oedd 12 mis, a oedd yn llawer rhy hir i beidio gwybod y naill ffordd neu'r llall, ac i beidio gwybod a allech chi symud y busnes ymlaen ai peidio. Hyd yn oed o'r datganiad o ddiddordeb a gyflwynais, byddai wedi bod yn bosibl gweld a fyddwn i'n gymwys ai peidio ar y pwynt hwnnw – ac eto roedden nhw wedi gadael iddo lusgo ymlaen am flwyddyn." (Arolwg o'r rhai Nad Oeddent yn Fuddiolwyr)

5.18 Derbyniwyd ymateb cymysg iawn pan ofynnwyd yn uniongyrchol i fuddiolwyr am eu boddhad â'r amseriadau ar gyfer cymeradwyo'r grant (roedd 48 y cant neu 15/31 yn fodlon, tra bo 45 y cant neu 14/31 yn anfodlon), sy'n gyson â'r adborth gan aelodau'r tîm cyflawni ac sy'n datgelu ymhellach y problemau a achoswyd mewn llawer o achosion. Cafwyd ymateb cymysg tebyg gan bobl nad oeddent yn fuddiolwyr hefyd, gyda 33 y cant (13/39) yn mynegi anfodlonrwydd:

"Roedd yn rhaid i mi ddweud beth fyddai cost yr offer y byddwn yn ei gael ar y diwrnod y gwneuthum y cais. Cefais dri dyfynbris. Erbyn i chi gael y grant ar gyfer prynu'r offer mae'n 18 mis yn ddiweddarach ac mae'r costau wedi codi. Ni ddylai hyn gymryd dim hirach na chwe mis. Dydy dyfynbrisiau ddim ond yn ddilys am dri mis." (Arolwg o'r rhai nad Oeddent yn Fuddiolwyr)

"O ran yr amser a'r ymdrech yr oedd yn rhaid i chi ei roi i mewn – doedd dim pwynt. Roedd yn cymryd cymaint o amser i weithio eich ffordd drwy'r cam cyntaf – byddai'r ail gam wedi cymryd misoedd. Yn y diwedd, gwnes y buddsoddiad o'm harian fy hun am na allwn i aros yn hirach." (Arolwg o'r rhai Nad Oeddent yn Fuddiolwyr)

5.19 O edrych ar ddyddiad cyflwyno'r datganiadau o ddiddordeb gan y buddiolwyr a'r dyddiad cymeradwyo prosiect a gofnodwyd, gallwn weld ei fod wedi cymryd 498 o ddyddiau neu 17 mis ar gyfartaledd i brosesu'r ceisiadau, ac roedd hyn yn weddol gyson drwy'r ffenestri cyllid i gyd.

**Tabl 5.1: Yr amser a gymerwyd i gymeradwyo prosiectau o ddyddiad cyflwyno'r DoDd**

| | Yr amser tan y cymeradwyo – dyddiau | Yr amser tan y cymeradwyo – misoedd |
|---|---|---|
| Ffenestr 1 – 2016 | 481 | 16 |
| Ffenestr 2 – 2017 | 597 | 20 |
| Ffenestr 3 – 2018 | 488 | 16 |
| Ffenestr 4 – 2019 | 507 | 17 |
| Ffenestr 5 – 2021 | 394 | 13 |
| Yn gyffredinol | 498 | 17 |

Ffynhonnell: Data Gwybodaeth Rheoli a ddarparwyd gan LlC[21]

**Cymeradwyo**

5.20 Roedd y tîm cyflawni'n credu bod y broses gymeradwyo'n effeithiol, a thynnwyd sylw at y ffaith bod ganddynt gymysgedd priodol o bersonél yn asesu'r ceisiadau, yn cynnwys cynrychiolwyr o dîm polisi LlC, CNC, a llais allanol o Forestry Scotland neu'r Forestry Commission yn Lloegr, ochr yn ochr ag unigolion oedd â phrofiad o'r diwydiant. Roeddent yn credu eu bod yn gallu dyfarnu cyllid i "amrywiaeth dda o bobl – mwy na dim ond y bobl sydd fel arfer yn cael cymorth o'r fath".

5.21 Yr unig amheuaeth oedd gan y tîm cyflawni, fodd bynnag, oedd bod y meini prawf sgorio'n ffafrio ymgeiswyr mwy oherwydd y gydran gwerth am arian (fel y trafodwyd eisoes). Esboniodd un aelod o'r tîm hyn drwy ddweud: "Os ydych eisiau effeithio ar y diwydiant, mae angen i chi gefnogi'r chwaraewyr mwy, felly mae'n bosibl mai dyma oedd yr agwedd gywir." Siaradodd aelod arall o'r tîm am y ffordd y gallai'r meini prawf weithio yn erbyn cyflawni rhai o'r amcanion strategol o bosib:

> "[Roedd y cyllid wedi ei] anelu at fusnesau o'r math cynaeafu, gan ddiddymu bron unrhyw feithrinfeydd, busnesau llai. Nid oeddem wedi gadael i lawer o weithredwyr cynnal a chadw coed anodd ddod drwy'r broses e.e. clefyd (Chalara) coed ynn, ac roedd hynny'n broblem fawr," (cyfweliad gydag Aelod o'r Tîm Cyflawni)

[21] Llwyddom i ganfod y dyddiad cyflwyno DoDd ar gyfer 38 prosiect. Os nad oedd y data ar gael (h.y. y 36 cyflwyniad DoDd oedd yn weddill), aethom ati i aseinio amcangyfrif pwynt canol ar gyfer y ffenestr gyllido (roedd y ffenestri i gyd yn agored o fis Chwefror hyd fis Ebrill; felly, aethom ati i aseinio dyddiad Mawrth 15 ar gyfer y blynyddoedd ffenestr gyllido perthnasol).

5.22 Efallai fod hyn eto'n dangos elfen o amwysedd mewn perthynas â'r hyn roedd y cynllun yn ceisio ei gyflawni. Yn ystod y cyfweliadau cwmpasu cychwynnol ar gyfer y gwerthusiad roedd llawer o bwyslais ar nod y cynllun o ddod â choetiroedd newydd dan reolaeth, gan dargedu ardaloedd anhygyrch yn benodol (sydd wedi eu lleoli gan fwyaf mewn coetiroedd bach, ar ffermydd yn aml). Roedd y pwyslais o fewn y broses werthuso ar gefnogi coetiroedd mwy yn gwrthgyferbynu â'r amcan hwn. Yn ogystal, roedd yn gweithio yn erbyn amcan strategol LIC mewn perthynas â thyfu mwy o goed ac ymdrin â chlefyd (Chalara) coed ynn, er bod hyn wedi ei nodi a'i drwsio yn ffenestr 5 (lle ymgorfforwyd yr amcanion o ymdrin â chalara a chefnogi meithrinfeydd).

**Prosesau ymgysylltu a defnyddio cymorth**

5.23 Mae'r elfen ymgysylltu â busnesau o fewn y CBBP yn cynnwys ymgysylltiad cychwynnol i wneud y diwydiant yn ymwybodol o'r cymorth, y cymorth hwyluso drwy'r prosesau ymgeisio a monitro, a'r cymorth i fynd i'r afael ag unrhyw ymholiadau wrth i fusnesau wario eu cyllid grant. Doedd y rhain ddim yn ymgysylltiadau estynedig, fel yr ydym yn ei amlinellu isod.

**Ymgysylltiad cychwynnol**

5.24 Aeth y tîm CBBP ati i lansio a hyrwyddo'r cynllun drwy ymgyrch farchnata gymhedrol oedd yn defnyddio sianelau diwydiannol yn bennaf. Roedd hyn yn amlwg yn yr ymatebion i'r arolwg, gyda 45 y cant (14/31) o'r buddiolwyr yn clywed am y cymorth drwy wefan LIC neu Gwlad, tra bo chwarter wedi dod i wybod amdano drwy bobl yn siarad, a'r mwyafrif o'r lleill drwy ymgynghoriadau neu wasanaethau cynghori fel Cyswllt Ffermio.

5.25 Roedd y tîm yn teimlo bod hyn yn briodol, o ystyried natur y sector: "Mae'n ddiwydiant bach iawn, felly nid oes angen llawer arno. Nid oedd angen iddo gael cyhoeddusrwydd mawr y tu allan i gyfyngiadau cul y diwydiant ei hun, fel drwy Confor [Conffederasiwn Diwydiannau Coedwig] a sefydliadau eraill sy'n cynrychioli'r diwydiant."

5.26 Wedi dweud hynny, roedd yr ymgeiswyr yn teimlo ar y cyfan nad oedd lefel arbennig o uchel o ymwybyddiaeth am y cynllun o fewn y sector. Pan ofynnwyd yn

benodol iddynt am eu canfyddiadau am hyn drwy roi sgôr ar raddfa o 1 (Ddim yn adnabyddus) i 5 (Adnabyddus iawn), roedd y mwyafrif o'r buddiolwyr (57 y cant neu 17/30) wedi rhoi sgôr isel i ganolig o 1–3, tra bo 29/39 (74 y cant) o bobl nad oeddent yn fuddiolwyr wedi dweud yr un peth. Yn fwy na hynny, cafwyd sylwadau tebyg gan rai o arbenigwyr y diwydiant y buom yn siarad â nhw (h.y. y rhanddeiliaid allanol) ac roeddent wedi awgrymu y dylid 'gwthio' y broses fwy a chydweithio â nhw i ledaenu'r neges.

**Y defnydd o gefnogaeth**

5.27 Mae'n ymddangos bod y cymorth hwyluso drwy'r broses ymgeisio a thu hwnt yn gyfyngedig. Rydym yn deall bod TGC yn cynnig cymorth, a bod gan bob busnes berson wedi'i enwi y gallent gysylltu â nhw. Fodd bynnag, cadarnhaodd TGC fod yn rhaid iddynt "symud i gysylltu drwy TGC ar-lein i sicrhau nad oedd ceisiadau ac ymholiadau'n cael eu colli pan fyddai staff ar absenoldeb salwch/gwyliau blynyddol ac ati", sy'n debygol o fod wedi effeithio ar hygyrchedd y cynnig cymorth. Roedd y tîm LlC yn gyfyngedig hefyd o ran yr hyn y gallent ei ddarparu:

> "Cawsom ein cyfarwyddo i beidio cynghori busnesau am eu prosiect. Gallem roi cyngor am bolisi a siarad am reolau cynlluniau ac ati, ond er tegwch, ni allem weithredu fel ymgynghorydd." (Cyfweliad gydag Aelod o'r Tîm Cyflawni)

5.28 Aeth yr aelod o'r tîm cyflawni ymlaen i esbonio bod hyn yn arwain at broblemau y gellid eu hosgoi, ond roedd yn fater o sicrhau tegwch. Darparodd LlC rywfaint o gymorth drwy nodiadau arweiniad oedd yn parhau'n weddol gyson ymhob ffenestr — mae hyn yn cyferbynu â rhai o'r cynlluniau eraill lle mae'r arweiniad yn newid o ffenestr i ffenestr. Felly, roedd y tîm cyflawni'n teimlo bod yr arweiniad yn ddefnyddiol, syml ac yn hawdd ei ddilyn. Darparwyd cymorth ychwanegol drwy Gwestiynau Cyffredin, gweithdai a redwyd gan Rwydwaith Gwledig Cymru, a chyfathrebiadau eraill i reoli ymholiadau ymgeiswyr, er bod llai na thraean o'r buddiolwyr (32 y cant; 10/31) wedi cyrchu'r cymorth hwn.

5.29 Pan oedd cymorth wedi'i dderbyn, roedd yr ymateb yn gymysg iawn, gyda chwech yn dweud ei fod wedi bod yn ddefnyddiol, tra bo'r pedwar arall heb ei gael yn ddefnyddiol iawn. O ran yr olaf, roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â'r math o

gymorth a sut yr oedd yn anodd siarad â rhywun wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, sy'n cysylltu'n ôl at y diffyg adnoddau ar yr ochr gyflawni:

> "Rhoddodd y dogfennau arweiniad lawer o wybodaeth ddefnyddiol i helpu i lenwi'r cais ac roeddent wedi eu hysgrifennu mewn iaith hawdd ei deall." (Arolwg Buddiolwyr)

> "Roedd y llinell gymorth yn ddefnyddiol iawn ac yn darparu cyngor defnyddiol ar gyfer y cwestiynau. Roedd gwefan WEFO yn anodd iawn ei defnyddio a'i llywio." (Arolwg Buddiolwyr)

> "Roedd y deunydd arweiniad oedd gyda'r cais yn ddefnyddiol i ryw raddau, ond roedd y cwestiynau ymgeisio mor gymhleth ac anodd eu deall nes nad oeddwn i'n gallu cwblhau'r cais heb dalu am ymgynghorydd i helpu." (Arolwg Buddiolwyr)

> "Ar y cyfan, nid oedd yn ddefnyddiol iawn. Roedd naill ai drwy e-bost neu roedd yn rhaid i chi gael gafael ar bopeth drwy'r porth WEFO neu TGC – doeddech chi ddim yn gallu codi'r ffôn a siarad ag unrhyw un." (Arolwg Buddiolwyr)

5.30 Byddai'r mwyafrif llethol o ymgeiswyr wedi gwerthfawrogi derbyn cymorth arall i'w helpu i lywio drwy'r broses ymgeisio, a dywedwyd hynny gan 63 y cant (19/30) o fuddiolwyr ac 81 y cant (30/37) o bobl nad oeddent yn fuddiolwyr. Gan fanylu ar hyn, dywedodd naw o fuddiolwyr y byddent wedi gwerthfawrogi cael cyswllt y gallent siarad â nhw neu eu ffonio, tra bo saith wedi dweud y byddent wedi gwerthfawrogi mwy o arweiniad. O ystyried y ffaith bod cynifer o fusnesau angen cael gafael ar gyngor yn breifat, ac o ystyried natur ymarferol y sector, gellid dadlau'n gryf dros ddarparu cymorth un-i-un wedi'i deilwra mewn darpariaeth yn y dyfodol.

5.31 Y tu hwnt i'r broses ymgeisio, ychydig iawn o fuddiolwyr a dderbyniodd unrhyw gymorth parhaus, a dim ond pedwar o'r 31 o ymatebwr (13 y cant) a ddywedodd bod LIC wedi darparu cymorth pellach (oedd yn ymwneud yn bennaf â'r prosesau hawlio neu'r ymholiadau am brynu'r offer).

**Hawliadau a phrosesau monitro**

5.32 Ar y cyfan, roedd y buddiolwyr yn fodlon gyda'r prosesau hawlio a monitro, a dywedwyd hynny gan 61 y cant. Ond, mynegwyd anfodlonrwydd gan leiafrif

gweddol fawr (23 y cant; 7/31) ac roedd gan y mwyafrif o’r rhain farnau cryf. Soniodd y buddiolwyr am yr oedi o ran amser a natur fiwrocratig y broses, e.e. yn ymwneud â’r gofynnion am dystiolaeth a’r angen am nifer o ddyfynbrisiau (soniwyd am yr heriau hyn gan 6/31 neu 19 y cant), tra bo pump arall (16 y cant) wedi nodi cymhlethdod y broses a phedwar wedi nodi problemau gyda gwefan WEFO:

> “Mae’r broses hawliadau’n gymhleth iawn ac yn gofyn llawer o waith papur cefnogol. Mae’r amserlen i wneud hawliad yn rhy fyr, yn enwedig os ydych yn gwneud prosiect adeiladu, sy’n gallu wynebu problemau fel ceisiadau cynllunio, canfod adeiladwyr addas, ac ati” (Arolwg Buddiolwyr)

> “Oediadau amser – roedd yn rhaid i mi gyflwyno adroddiad amrywio, am nad oeddwn yn mynd i ddefnyddio’r grant i gyd ar unwaith, a chymerodd amser hir iawn i CBBP lofnodi hynny.” (Arolwg Buddiolwyr)

5.33 Mae’r diffyg hyblygrwydd wedi bod yn broblem, ac mae buddiolwyr wedi cael eu cosbi’n aml am ffactorau oedd y tu allan i’w rheolaeth hwy a rheolaeth y tîm cyflawni. Roedd y cyfuniad o heriau allanol, a arweiniodd at chwyddiant cyflym a diffyg hyblygrwydd mewnol wedi arwain at broblemau sylweddol i rai busnesau. Cydnabu’r tîm cyflawni bod y diffyg hyblygrwydd ac adnoddau wedi bod yn broblem drwy gydol y cynllun a bod “pob cam o’r broses wedi cymryd gormod o amser*”.*

# 6. Canfyddiadau allweddol am ganlyniadau ac effiethiau

6.1 Yn y bennod hon rydym yn ystyried beth mae'r cynllun wedi ei gyflawni y tu hwnt i'r cyllid grant a'r targedau DPA. Rydym yn ystyried sut mae busnesau wedi elwa o'r gefnogaeth a beth oedd yr effeithiau ehangach a nodwyd yn y ddamcaniaeth o newid (gwelwch Atodiad F).

**Gwella'r prosesau**

6.2 Yn gynharach yn yr addroddiad roeddem yn edrych ar ba mor llwyddiannus y mae'r cynllun wedi gallu dosbarthu'r cyllid grant a ddyrannwyd. Yr ail fesuriad o lwyddiant yw ystyried a oedd yn rheiny oedd wedi llwyddo i dderbyn cyllid wedi gallu gwneud y gwelliannau yr oeddent wedi eu nodi yn eu cynigion.

6.3 Roedd y mwyafrif o'r buddiolwyr yn credu eu bod wedi cyflawni'r hyn roedden nhw wedi bwriadu ei gyflawni, a rhoddodd 77 y cant (23/30) sgôr o 4 neu 5 pan ofynnwyd y cwestiwn hwn iddynt ar raddfa o 1 (Ddim o gwbl) i 5 (I raddau mawr). Mae hyn yn gyson â'n hadolygiad o'r adroddiadau *in-situ* oedd wedi eu seilio ar arolygon ffisegol a wnaed gan dîm cyflawni CBBP. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys adran ddiweddaru am gynnydd lle'r oedd yr archwiliwr yn amlinellu a oedd y prosiect wedi ei ddarparu yn unol â'r cynnig, Gallem sicrhau data am 49 o'r 74 prosiect (nid yw'r rhain yn cynnwys prosiectau ffenestr 5, am fod y mwyafrif heb dderbyn arolwg eto). Ymhob achos, canfu'r arolygydd fod y prosiect wedi ei ddarparu fel y bwriadwyd (41 achos; 84 y cant) neu wedi eu hoedi neu eu haddasu cyn cael eu darparu (wyth achos: 16 y cant). Yn ogystal, ymron pob achos (43 achos; 88 y cant) roedd y prosiectau wedi cwblhau'r gwaith ac wedi prynu'r offer i gyd yr oeddent wedi bwriadu ei brynu, ond mewn lleiafrif o achosion (chwech; 12 y cant) roedd y prosiectau wedi prynu'r offer yn rhannol neu gan fwyaf.

6.4 Yna aethom ati i ofyn dau gwestiwn agored yn yr arolwg buddiolwyr: yn gyntaf, i ganfod pa weithgareddau ychwanegol yr oedd y cymorth grant CBBP wedi caniatáu iddyn nhw eu gwneud; ac, yn ail, i ganfod maint y newid i'w gweithredoedd busnes o ganlyniad i'r cymorth.

6.5 Soniodd y buddiolwyr am amrywiaeth eang o ganlyniadau mewn ymateb i'r cwestiynau hyn, ac roedd y prif themâu'n cynnwys 'mwy o gynhyrchiad' a 'chyrchu

tiroedd anoddach' (dywedwyd hyn gan wyth o 27 o ymatebion, neu 30 y cant) a 'chyrchu marchnadoedd newydd' (saith cyfeiriad; 26 y cant). Wedi ei gysylltu â hyn, soniodd wyth o fusnesau (30 y cant) am yr effaith ar eu gwerthiannau, tra bo pump (19 y cant) wedi dweud eu bod yn gallu gweithredu prosesau mwy effeithlon, soniodd pedwar (15 y cant) am gynnydd mewn gwerth o fiomas, a soniodd tri (11 y cant) eu bod wedi datblygu prosesau mwy diogel.

6.6 Felly, mae'n sicr bod y dystiolaeth yn awgrymu bod y cynllun wedi cael effaith mewn perthynas â gwella galluoedd y sector pren yng Nghymru. Cefnogir hyn gan ganfyddiadau o'n dadansoddiad gwrth-ffeithiol, sydd wedi ei seilio ar adborth a gafwyd gan fuddiolwyr a phobl nad ydynt yn fuddiolwyr.

**Dadansoddiad gwrth-ffeithiol**

6.7 Gwelsom na fyddai unrhyw rai o'r buddiolwyr wedi gallu gwneud yr un buddsoddiad ar yr un pryd heb y cymorth, ac na fyddai oddeutu chwarter (23 y cant; 7/31) wedi gallu gwneud buddsoddiad o gwbl. Soniodd y mwyafrif o fusnesau am effaith ychwanegedd[22] rhannol, gyda 65 y cant yn sôn y byddent wedi gwneud buddsoddiad gwahanol neu lai, a dywedodd 42 y cant y byddent wedi gorfod aros yn hirach i wneud y buddsoddiad, gan ddangos effaith gyflymu CBBP a hwyluso buddsoddiadau gwell/mwy priodol. Soniodd buddiolwyr ymhellach na fyddai 75 y cant o'r buddsoddiad a wnaed wedi digwydd heb y cymorth gan CBBP, sy'n gyfatebol â thua £13.6 m. Os byddem yn tynnu'r £7.2m a ddyrannwyd yn uniongyrchol drwy'r CBBP, gallwn amcangyfrif bod y CBBP wedi trosoli £6.4m o fuddsoddiad gan fusnesau yn eu galluoedd na fyddai wedi digwydd heb y cymorth.

6.8 Aethom ati i holi ymhellach am allu buddiolwyr i fuddsoddi yn yr offer newydd heb gymorth CBBP. Yn gyntaf, dywedodd y buddiolwyr bron i gyd (30/31; 97 y cant) bod cyfyngiadau ariannol ganddynt oedd yn eu hatal rhag gwneud y buddsoddiad heb gymorth grant. Dywedodd y buddiolwyr nad oedd ganddynt y cyllid i brynu'r offer eu hunain, mor syml â hynny, ac roedd hyn yn amlwg wrth archwilio'r gymhareb grant-i-drosiant. Yn ail, soniodd 37 y cant o fuddiolwyr (11/30) eu bod wedi archwilio'r opsiynau ariannol eraill, benthyciadau banc gan fwyaf; ond, roedden nhw'n sôn y

[22] Ystyr ychwanegedd yw i ba raddau y mae gweithgaredd yn digwydd o gwbl, ar raddfa fwy, yn gynharach neu o fewn ardal ddynodedig benodol neu grŵp targed o ganlyniad i'r ymyrriad.

byddai'r cyfraddau llog yn ormod o risg i'w busnesau. Yn wir, dim ond 16 y cant (5/31) o fuddiolwyr oedd wedi cyrchu cyllid ad-daladwy o'r blaen. Felly, byddai hyn yn awgrymu ymhellach bod angen cyllid cyhoeddus er mwyn i'r buddsoddiad fynd yn ei flaen.

6.9 Dim ond 21 y cant (8/38) o bobl nad oeddent yn fuddiolwyr a ddywedodd eu bod wedi symud ymlaen i brynu'r union eitemau cyfalaf yr oeddent wedi gobeithio defnyddio'r CBBP ar eu cyfer. Pan oeddent wedi gallu prynu'r un eitemau, esboniodd bob un o'r wyth ei fod wedi cymryd amser hirach iddyn nhw wneud hynny. Gorfodwyd y 79 y cant (30/38) oedd yn weddill i brynu eitemau gwahanol neu nid oeddent wedi gallu prynu offer newydd o gwbl. Ar ben hynny, dim ond 18 y cant o bobl nad oeddent yn fuddiolwyr a roddodd sgôr uchel pan ofynnwyd iddynt i ba raddau roeddent wedi gallu cyflawni eu hamcanion heb y CBBP[23]. Mae rhai o'r sylwadau a wnaed i'w gweld isod:

> "Aethom ati i brynu offer rhatach, hŷn oedd yn llai effeithiol." (Arolwg o'r rhai Nad Oeddent yn Fuddiolwyr)
>
> "Mae'n golygu nad ydym wedi gallu ehangu mor gyflym." (Arolwg o'r rhai Nad Oeddent yn Fuddiolwyr)
>
> "Yn methu tyfu'r busnes ac yn methu gwneud cysylltiadau newydd." (Arolwg o'r rhai Nad Oeddent yn Fuddiolwyr)

6.10 Mae'r data hyn yn dangos lefel gref o ychwanegedd o fewn y cymorth CBBP, gan ddangos lefel uchel o effaith felly mewn perthynas â chynyddu galluoedd o fewn y sector.

**Trosolwg o'r canlyniadau**

6.11 Gallai'r busnesau ddarparu manylion am y gwahaniaeth yr oedd y galluoedd newydd wedi ei wneud i'w gweithredoedd, gan ddisgrifio'r ardaloedd newydd o goetir y gallent fynd i mewn iddynt, y marchnadoedd newydd a ddatblygwyd, a'u gallu i sicrhau contractau mwy a gwneud ymarferion mwy. Dyma rai enghreifftiau:

[23] Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Gan feddwl am y rhesymau pam yr oeddech eisiau cyllid CBBP i fuddsoddi mewn eitemau cyfalaf, i ba raddau ydych chi wedi gallu cyflawni'r amcanion hynny heb gymorth CBBP?', dewisodd 56 y cant 1 (Ddim o gwbl) neu 2, dewisodd 26 y cant 3, a dewisodd 18 y cant 4 neu 5 (I raddau mawr).


“Roedd prosiect 1 yn gadael i ni gymryd y busnes yn ddiogel ac effeithlon o hobi i fusnes oedd yn gweithredu’n llawn a dechrau cyflogi pobl. Roedd Prosiect 2 yn caniatáu i ni gynyddu gallu a chynhyrchiad fel y gallem werthu i gwsmeriaid masnachol a chyfanwerthol ac, unwaith yr oedd y cyfleusterau storio a melin lifio wedi eu cwblhau (yn hwyr yn 2022), gallem ddechrau gwerthu pren i’r sector adeiladu.” (Arolwg Buddiolwyr)

“Mae’r gweithgareddau ychwanegol yn cynnwys gwaith ar dir mwy serth, cynaeafu coed mwy [hefyd ar dir mwy serth os oes ei angen], a chymryd gwaith i [enw’r rheolwr coedwigaeth]. Cyn y grant roeddem yn gwneud gwaith ystâd bach, ac rydym wedi parhau i wneud hyn, ond nawr gallwn gymryd prosiectau mwy neu weithio ar dir mwy heriol.” (Arolwg Buddiolwyr)

“Mae’r offer newydd wedi eu hawtomeiddio i raddau llawer mwy ac yn golygu bod y gwaith yn cymryd llai o amser ac y gellir cynhyrchu mwy mewn amser byrrach. Mae’r broses o gynhyrchu coed tân yn llawer cyflymach, effeithlon a rhatach yn awr, felly gallaf dreulio mwy o amser yn tyfu fy sail cwsmeriaid a gallaf gymryd archebion mwy.” (Arolwg Buddiolwyr)

6.12 Yna gofynnwyd cwestiwn caeedig i’r buddiolwyr am ganlyniadau penodol a welwyd yn ystod y broses damcaniaeth newid. Bwriad hwn oedd ategu’r cwestiynau penagored heb eu promptio i gynhyrchu canlyniadau mwy meintiol am y canlyniadau a gafwyd. Mae’r canlyniadau wedi eu hamlinellu yn Ffigur 6.1 lle mae themâu tebyg yn ymddangos, Mae hyn yn dangos bod y mwyafrif o fuddiolwyr wedi cael nifer o ganlyniadau positif, o effeithlonderau i gynnydd mewn cynhyrchiad a thwf y farchnad. Gofynnwyd cwestiynau dilynol am bob un o’r rhain, a dywedodd y mwyafrif o’r busnesau fod y prosiect wedi arwain at ostyngiad yn eu costau. Roedd y rhai a aeth i mewn i farchnadoedd newydd yn sôn am werthu coed tân fel llwybr yr amrywiaethu hwn, a gallai 13 o fusnesau roi amcangyfrifon am y cynnydd ym maint eu cynhyrchiad pren blynyddol, sef cynnydd o fwy na 44,000 o dunelli i gyd.

**Ffigur 6.1: Canlyniadau a adroddwyd gan fuddiolwyr (cwestiwn 'ticiwch bob un sy'n berthnasol)**




Ffynhonnell: Arolwg buddiolwyr (n=31)

**Effaith amgylcheddol**

6.13 Er bod y pethau oedd yn eu gyrru'n ymwneud fwy â'r ochr economaidd, ac mae ymatebion buddiolwyr yn awgrymu mai dyma oedd y brif effaith hefyd, mae'r canlyniadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd yn amlwg yn Ffigur 6.1 hefyd. Roedd y mwyafrif o'r buddiolwyr wedi datblygu prosesau llai dwys a niweidiol i'r amgylchedd, roedd y mwyafrif wedi gallu gostwng y boblogaeth o goed peryglus neu wella amodau coetiroedd, tra bo tua eu hanner wedi dod â choetiroedd newydd dan reolaeth gynaliadwy (o goetiroedd fferm yn bennaf).

6.14 Pan ofynnwyd yn uniongyrchol iddyn nhw am effeithiau amgylcheddol a gynhyrchwyd gan y cynllun, gallai 84 y cant o'r buddiolwyr (26/34) enwi'r manteision. Ochr yn ochr â'r canlyniadau a welir yn y siart uchod, soniodd 29 y cant o'r buddiolwyr am effaith teneuo'r coetiroedd, yn cynnwys y manteision mewn perthynas â bioamrywiaeth tra bo eraill wedi nodi sut roedden nhw wedi newid coed conwydd am goetiroedd brodorol (tri ymateb).

"Mae'r coetir rwy'n berchen arno ac yr wy'n gobeithio ei brynu heb ei reoli, ond nawr mae'r offer hwn yn golygu y gallaf wella faint o oleuni sy'n cyrraedd llawr y

goedwig a bydd hyn yn cynyddu bioamrywiaeth. Rwyf hefyd yn torri coed hŷn a pheryglus i lawr ac yn newid coed conwydd am goed brodorol, a fydd yn annog mwy o fywyd gwyllt.” (Arolwg Buddiolwyr)

6.15 Hefyd, dywedodd y mwyafrif o’r buddiolwyr (61 y cant) bod eu prosiect wedi cefnogi’r cyflenwad uwch a’r defnydd o fiomas cynaliadwy.

**Safbwyntiau’r tîm cyflawni**

6.16 Mynegodd aelodau’r tîm cyflawni deimladau tebyg am ganlyniadau’r cynllun, gan esbonio fod “Cymru yn llawn o ardaloedd dynodedig sy’n gofyn am offer sensitif, effaith isel ar y ddaear (sy’n ddrud iawn)” a bod y sector yn awr yn gallu cyrchu tir sensitif neu a oedd yn anhygyrch gynt yn llawer gwell. Bydd hyn, ochr yn ochr â’r broses gyffredinol o deneuo coetiroedd, wedi arwain at gynyddu gwerth a gostwng gwastraff yn y stoc goed ynghyd â’r buddion i fflora a ffawna sy’n gysylltiedig ag o. Ymhellach, roedden nhw’n mynegi gobaith y bydd y cynllun wedi gwneud y busnes yn fwy proffidiol, gan ddarparu gwell gwobrwon i’r gweithlu. Maen nhw’n credu bod y cynllun wedi helpu’r sector i fod yn fwy cystadleuol gyda gweddill y DU. Soniodd un cyfwelai esiampl lle byddai contractwr Albanaidd yn darparu llawer o gontractau yng Nghymru, cyn CBBP, i ymdrin â malurion, am mai nhw oedd un o’r ychydig fusnesau oedd â’r peiriannau gofynnol. Gallai busnes o Gymru fuddsoddi mewn peiriannau tebyg drwy’r CBBP ac, felly, gallai gymryd y gyfran o’r farchnad, ac felly gadw mwy o werth y gadwyn gyflenwi yng Nghymru.

**Twf busnes ac effaith economaidd**

6.17 Roedd yr arolwg buddiolwyr yn cynnwys adran fanwl ar gyfer archwilio twf busnes mewn perthynas â chyflogaeth a throsiant, ochr yn ochr â data arall a ddefnyddiwyd i hysbysu AEE.

**Yr effaith ar gyflogaeth**

6.18 Roedd y mwyafrif o fuddiolwyr (54 y cant) wedi cynyddu eu gweithlu ers derbyn cymorth CBBP, gyda dim ond 15 y cant yn sôn am ostyngiad, tra bo 31 y cant wedi aros yr un fath. Mae hyn, wrth gwrs, o fewn cyd-destun y pandemig COVID-19 a’r heriau allanol sylweddol eraill oedd yn wynebu’r sector yn ystod y cyfnod o gyflawni.

6.19 Yna aethom ati i ofyn i fusnesau am effaith y CBBP ar eu lefel cyflogaeth drwy ddau gwestiwn: a) faint o bobl roedden nhw wedi eu cyflogi yn y flwyddyn ariannol ddiweddaraf, b) faint o weithwyr cyflogedig maen nhw'n amcangyfrif fyddai ar eu cyflogres pe baen nhw heb dderbyn cymorth drwy'r CBBP. Datgelodd hyn fod 52 y cant (13/25) yn credu y byddai ganddynt lai o weithwyr cyflogedig heb ymyrraeth CBBP. Soniodd y mwyafrif o'r lleill nad oedd y CBBP wedi cael unrhyw effaith ar gyflogaeth (40 y cant; 10/25) tra bo wyth y cant (dau ymatebwr) wedi nodi effaith niweidiol; er enghraifft, roedd un oedd heb dderbyn taliad llawn wedi gorfod cael gwared ag aelodau o staff am fod y busnes wedi gorfod amsugno costau peiriannau. Ond, mae'n bwysig peidio gorbwysleisio'r pwynt hwn, am mai dim ond 2/25 a soniodd am effaith niweidiol o'i gymharu â 13/25 a soniodd am effaith bositif.

6.20 Ar gyfartaledd, roedd buddiolwyr yn amcangyfrif y byddai ganddynt 1.1 yn llai o weithwyr cyflogedig os na fyddai cymorth CBBP wedi bod ar gael. Trwy ddefnyddio'r cyfartaledd hwn i bob busnes a gefnogwyd, gallwn amcangyfrif bod CBBP wedi creu neu ddiogelu 71 o swyddi i gyd, sy'n gyfatebol â thua £110k mewn buddsoddiad i bob swydd a grëwyd neu a ddiogelwyd. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod yr amcangyfrifon hyn wedi eu seilio ar 26 o ymatebion ac maen nhw'n is na'r ffigurau DPA swyddogol o 227 swydd wedi eu diogelu a 13 wedi eu creu. Mae data cyflawniad DPA yn gyfatebol â thua £32k i bob swydd a grëwyd neu a ddiogelwyd

6.21 Y ffordd arall o asesu'r effaith net ar gyflogaeth yw drwy gymharu'r cynnydd gwirioneddol o fewn y grŵp ymyrraeth (h.y. buddiolwyr CBBP) gyda grŵp cymharu (h.y. rhai nad ydynt yn fuddiolwyr). Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos hyn: er bod buddiolwyr yn fwy tebygol o fod wedi profi twf mewn cyflogaeth, mae'r rhai nad ydynt yn fuddiolwyr (roedd 54 y cant o'r buddiolwyr wedi tyfu o'i gymharu â dim ond 31 y cant o'r bobl nad oeddent yn fuddiolwyr), mae'r cynnydd cyfartalog yn y ddau grŵp bron yn union yr un fath (0.2 fesul busnes o fewn y grŵp nad oeddent yn fuddiolwyr o'i gymharu â chyfartaledd o 0.21 o fewn y grŵp buddiolwyr). Felly, byddai'r asesiad sy'n defnyddio'r dull hwn yn awgrymu effaith fechan iawn gan CBBP. Yn wir, mae'r cyfrifiad hwn yn darparu effaith net o ddim ond 0.7 o swyddi gan y CBBP o'i grosio i fyny ar gyfer y 64 buddiolwr. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad wedi ei gyfyngu gan y ffaith nad yw'n rheoli ar gyfer ffactorau eraill o fewn y ddau sampl (e.e. maint y busnesau yn ogystal â'r taflwybrau twf cyn cael

gafael ar y cymorth). Byddai hyn yn gofyn gwneud dadansoddiad cyfateb sgôr tueddfryd[24] i gael asesiad mwy cadarn a mwy credadwy.

6.22 Mae cwestiynau eraill am gyflogaeth buddiolwyr yn awgrymu bod effeithiau wedi bod ar ansawdd cyfleoedd cyflogaeth yn ogystal â'r nifer. Er enghraifft, dangosodd 77 y cant o fuddiolwyr bod y cymorth wedi arwain at well diogelwch mewn swydd (e.e. osgoi oriau sero, contractau dros dro, oriau gweithredu), tra bo 55 y cant wedi dweud ei fod wedi arwain at welliant yng nghyfansoddiad sgiliau eu gweithlu. Roedd rhan o hyn yn amlwg mewn ymateb i gwestiwn penagored ar yr effaith y mae'r cynllun wedi'i gael ar y gyflogaeth y maent yn ei darparu, gyda 30 y cant (8/27) yn dweud eu bod wedi cynyddu'r oriau gwaith ac 11 y cant (3.27) yn nodi gwelliannau yn y cyflog a gynigiwyd.

**Yr effaith ar drosiant**

6.23 Mae'r dadansoddiad o ddata trosiant yn awgrymu ymhellach bod y CBBP wedi cynhyrchu twf i fuddiolwyr, er bod ein dadansoddiad wedi ei seilio ar sampl is o 20 buddiolwr oedd wedi gallu cyflenwi'r data perthnasol (h.y. ffigurau gwaelodlin ac ôl-ymyrraeth cywir). Mae ein dadansoddiad yn datgelu bod 90 y cant o fuddiolwyr (18/20) wedi cynyddu eu trosiant ers derbyn cymorth gan y CBBP.

6.24 Yna gofynnwyd i fuddiolwyr amcangyfrif y gyfran o'r cynnydd hwn a gynhyrchwyd o ganlyniad i'r cymorth grant. Roedd y lefelau priodoliad yn amrywio, gyda saith o'r 17 ymatebwr yn dynodi effaith gymhedrol o hyd at 25 y cant, pedwar yn dangos effaith fwy sylweddol o 26-50 y cant, dau yn awgrymu lefel priodoliad uwch o 51–75 y cant, a phedwar yn credu ei fod wedi bod yn gyfrifol am 76–100 y cant o'u twf. Trwy ddefnyddio'r canrannau hyn ar dwf pob busnes, gallwn amcangyfrif bod buddiolwyr, ar gyfartaledd, yn credu bod eu trosiant tua £48k yn uwch o ganlyniad i'r cymorth. Os byddwn yn defnyddio'r cyfartaledd hwn ar gyfer y 64 buddiolwr, gallwn amcangyfrif bod y CBBP yn gyfrifol am tua £3.1 m o gynnydd mewn trosiant i fuddiolwyr.

[24] Mae cyfateb sgôr tueddfryd (PSM) yn ddull lled-arbrofol lle mae'r ymchwilwyr yn defnyddio technegau ystadegol i adeiladu grŵp rheoli artiffisial drwy gyfateb pob uned wedi'i thrin gydag uned heb ei thrin sydd â nodweddion tebyg.

6.25 Mae cymhariaethau â'r sampl nad ydynt yn fuddiolwyr yn darparu rhagor o dystiolaeth o dwf a gynhyrchwyd gan y cynllun, gan ddatgelu bod llawer llai o'r grŵp nad ydynt yn fuddiolwyr wedi tyfu ers ymgysylltu â'r CBBP (53 y cant o'i gymharu â 90 y cant o fuddiolwyr). Mae ein dadansoddiad hefyd yn datgelu bod y grŵp buddiolwyr wedi tyfu o ffin llawer mwy arwyddocaol, yn gyfrannol mae'n 92 y cant yr un ar gyfartaledd o'i gymharu â 30 y cant yn gywerth ar gyfer y grŵp nad ydynt yn fuddiolwyr.

**Potensial ar gyfer y dyfodol**

6.26 Mae'r amcangyfrifon a ddarperir uchod wedi eu seilio dim ond ar yr effaith a gafwyd hyd yn hyn. O ystyried bod 19 o'r prosiectau (30 y cant o'r holl brosiectau) yn dal yn weithredol, mae posibilrwydd cryf y bydd effaith nad yw wedi ymddangos eto y tu hwnt i ddiwedd y cynllun ei hun. Yn ogystal, mae'r ysgytiadau allanol o'r pandemig a digwyddiadau eraill yn debygol o fod wedi cael effaith ar unrhyw effeithiau uniongyrchol gan y gefnogaeth. Yn wir, pan ofynnwyd am hyn, dangosodd traean o'r buddiolwyr (8/24) bod COVID-19 wedi effeithio ar eu gallu i ddefnyddio'r cymorth grant fel y bwriadwyd, gydag wyth yn sôn am oedi yn narpariaeth yr offer a phedwar yn nodi sut y cawsent eu gorfodi i gau eu gweithrediad am gyfnod o amser.

6.27 Felly, aethom ati i brofi ei botensial yn y dyfodol, oedd yn datgelu bod y mwyafrif llethol o fuddiolwyr (77 y cant) yn disgwyl i'r CBBP gael effaith ar eu twf (trosiant a chyflogaeth) dros y flwyddyn nesaf.

6.28 Roedd naw allan o 24 o ymatebwyr (38 y cant) yn disgwyl i'w cyflogaeth gynyddu dros y flwyddyn nesaf, ac roedd pob un ohonynt wedi cysylltu o leiaf rhywfaint o'r disgwyliad am dwf hwnnw ag effaith y CBBP, gydag wyth o'r naw yn cysylltu tua hanner y twf neu fwy ag effaith y cynllun   Ar sail y rhagfynegiadau hyn, pe baem ni'n tybio bod y sampl yn cynrychioli'r grŵp buddiolwyr ehangach, byddai hyn yn awgrymu y bydd y CBBP yn arwain at greu 17 swydd bellach dros y 12 mis nesaf.

6.29 Roedd y buddiolwyr hyd yn oed yn fwy hyderus am eu rhagfynegiadau am drosiant, gyda dwy ran o dair (16/24) yn disgwyl cynnydd dros y flwyddyn nesaf. Ymhob achos ond dau, roedd y buddiolwyr yn cysylltu o leiaf rywfaint o'r cynnydd hwn â'r cymorth gan CBBP. Ar sail y rhagfynegiadau am drosiant a'r priodoliad a ddarparwyd gan fuddiolwyr, ac yn cyfrif am y chwyddiant a ragwelir dros y flwyddyn

nesaf[25], mae ein brasamcan yn awgrymu bod gan y CBBP y potensial i gynhyrchu tua £7.1m o gynnydd mewn trosiant dros y flwyddyn nesaf. Byddem yn rhybuddio, fodd bynnag, bod y brasamcanion hyn yn fwy sbeciannol ac yn fwy agored i dueddiad optimistiaeth[26]. Fodd bynnag, mae'r data hyn yn sicr yn awgrymu bod yr effaith economaidd yn debygol o fod yn llawer uwch na'r hyn a brofwyd hyd yma.

**Mapio cadwyn gyflenwi**

6.30 Er mai rhan o uchelgais y cynllun oedd cadw mwy o werth y gadwyn gyflenwi yng Nghymru drwy gymryd cyfran o'r farchnad gan gyflenwyr y tu allan i Gymru, ychydig iawn o dystiolaeth sydd yn yr arolwg i ddangos bod hyn yn digwydd. Dyma ganfu ein hadran yn yr arolwg i fapio'r gadwyn gyflenwi.

- Roedd gwerthiannau buddiolwyr bron i gyd i gwsmeriaid yng Nghymru (97 y cant ar gyfartaledd, gyda dim ond un busnes yn dweud bod y ffigur yn llai na 90 y cant), ac nid oedd y CBBP wedi cael unrhyw effaith bron ar hynny (dim ond un busnes a soniodd bod 'rhywfaint' o effaith).
- Cyfrifwyd am wariant y buddiolwyr ar gyflenwadau gan gyflenwyr o Gymru yn bennaf (78 y cant ar gyfartaledd).
- Roedd buddiolwyr yn ystyried bod eu cystadleuwyr bron i gyd o Gymru (93 y cant ar gyfartaledd).

6.31 Mae hyn yn arwydd o sector plwyfol lle mae ffocws y gweithgaredd economaidd wedi ei gyfyngu y tu mewn i Gymru i raddau mawr. Efallai fod y ffaith yr ystyrir y cystadleuwyr yn Gymry yn bennaf yn awgrymu mai dim ond cyfyngedig yw effaith y cynllun ar gadw cyfran uwch o werth y gadwyn gyflenwi yng Nghymru. Efallai fod hyn yn awgrymu diffyg goruchwyliaeth strategol ymhellach. Roedd y rhesymeg wedi ei seilio'n rhannol ar y syniad mai ychydig iawn o bresenoldeb oedd gan fusnesau mewn marchnadoedd y tu allan i Gymru, neu nad oedd ganddynt bresenoldeb o gwbl, ac y byddai'r cymorth yn eu galluogi i fynd i'r afael â hynny. Byddai'r data hyn

[25] Ym mis Rhagfyr 2022, y chwyddiant a ragwelir o 2022 i 2023 oedd 3.53 y cant (ffynhonnell: Cyfrifon Gwladol Chwarterol (gov.uk)). Mae hyn wedi ei ddefnyddio fel cyfradd disgownt i gryfhau'r brasamcan am y potensial yn y dyfodol.
[26] Mae hyn yn cyfeirio at y duedd o oramcangyfrif y tebygolrwydd o gael digwyddiadau cadarnhaol ac o amcangyfrif yn rhy isel y tebygolrwydd o brofi digwyddiadau negyddol.

yn awgrymu nad oedd y capasiti uwch wedi cael ei ddefnyddio i fynd i mewn i farchnadoedd y tu hwnt i Gymru. Ond, efallai mai'r cwbl y mae hyn yn ei ddangos yw diffyg ymwybyddiaeth gan y buddiolwyr ynglŷn â lle mae eu cwsmeriaid posibl yn cael gafael ar eu cynhyrchion pren.

**Asesiad o effaith economaidd**

6.32 Mae ein AEE wedi ei seilio ar y cynnydd mewn trosiant y soniodd buddiolwyr amdano, ac yn dilyn hynny mae defnyddio'r pum ffactor ychwanegedd y dylid eu hystyried i asesu'r effaith economaidd, fel y nodwyd yn arweiniad Llywodraeth y DU[27]. Dyma nhw.

- Pwysau marw – y gyfran o ganlyniadau a fyddai wedi digwydd beth bynnag heb y cymorth. Rhoddwyd cyfrifiad am hyn yn barod yn yr adran flaenorol, lle gofynnwyd i fuddiolwyr pa gyfran o'r cynnydd mewn trosiant y byddent yn ei gysylltu â'r cymorth, gan roi'r amcangyfrif o £3,056,454.06.
- Lledaeniad – y gyfran o'r canlyniadau sydd wedi elwa busnesau y tu allan i grŵp neu ardal darged yr ymyrraeth. Ychydig iawn o dystiolaeth sydd o ledaeniad fel hyn, o ystyried bod y cynllun dim ond wedi cefnogi busnesau wedi eu seilio yng Nghymru; felly, nid yw ein brasamcan yn ystyried unrhyw ddisgownt sydd wedi'i gysylltu â lledaeniad.
- Dadleoliad – y gyfran o ganlyniadau y cyfrifiwyd amdani gan y gostyngiad mewn canlyniadau mewn rhannau eraill o'r ardal darged. Mae tystiolaeth gref o hyn, o ystyried bod y mwyafrif eang o gystadleuwyr y buddiolwyr wedi eu seilio yng Nghymru, a allai olygu bod y twf a gynhyrchir i fuddiolwyr yn dadleoli twf busnesau eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, mae dau gafeat i'w nodi yma. Yn gyntaf, nid ydym yn gwybod pa mor dda mae buddiolwyr yn deall eu cystadleuaeth a lle maen nhw wedi eu seilio; felly efallai eu bod wedi goramcangyfrif y gyfran sydd wedi ei seilio yng Nghymru. Yn ail, nid yw hyn yn cyfrif am y twf ym maint y diwydiant yng Nghymru. Roedd aelodau'r tîm cyflawni'n awgrymu bod y sector cyfan wedi tyfu yng Nghymru, sy'n debygol o fod yn rhannol gysylltiedig ag effaith y CBBP. Felly, ni allwn wahaniaethu rhwng

[27] Llywodraeth y DU, Canllaw Ychwanegedd, Pedwerydd Rhifyn 2014.

faint o'r twf a brofwyd gan fuddiolwyr sydd wedi dadleoli twf y cystadleuwyr a faint sydd wedi dod oherwydd y gwerth ychwanegol yn y farchnad.

- Ar sail hynny, rydym wedi ychwanegu effaith dadleoliad o 50 y cant i'n hamcangyfrif, sydd wedi ei seilio ar y lefel 'ganolig' o ddadleoliad a nodwyd yn nogfen Canllaw Ychwanegedd Llywodraeth y DU[28], gan roi amcangyfrif newydd o £1,528,227.03 (sy'n cyfrif am ddadleoliad).
- Amnewidiad – pan fydd cwmni'n newid un gweithgaredd am un tebyg er mwyn manteisio ar gymorth sector cyhoeddus. Roeddem wedi cynnwys y cwestiwn dilynol yn yr arolwg i brofi hyn: 'A ddefnyddiwyd y grant CBBP i newid un gweithgaredd economaidd am un arall?' Fodd bynnag, ni sicrhawyd unrhyw dystiolaeth o effaith amnewid ac, felly, ni ychwanegwyd disgownt sy'n ymwneud ag amnewidiad i'r amcangyfrif.
- Rydym hefyd angen rhoi cyfrif am yr effeithiau lluosydd economaidd (h.y. mwy o weithgarwch economaidd (swyddi, gwariant neu incwm) sy'n gysylltiedig ag incwm lleol) o gynhyrchu'r trosiant hwn. Mae Canllaw Ychwanegedd Llywodraeth y DU yn rhoi cyfartaledd o 1.51 ar gyfer ymyraethau gallu cystadleuol a datblygiad busnesau[29]. Fodd bynnag, byddem yn rhagweld bod yr effaith luosydd yn fwy arwyddocaol yn y sefyllfa hon, o ystyried ffocws lleol y sector. Felly, rydym wedi defnyddio effaith luosydd economaidd 1.6 ar ein hamcangyfrif, gan roi amcangyfrif newydd o £2,445,163.25 (sy'n rhoi cyfrif am yr effaith luosydd).

6.33 Y cam terfynol yw troi'r cynnydd mewn trosiant yn effaith gwerth ychwanegol gros trwy ddefnyddio'r gymhareb trosiant-i-GYG. Mae hyn wedi'i gymryd o ddata'r Arolwg Busnes Blynyddol, sy'n datgelu mai'r gymhareb trosiant-i-GYG ddiweddaraf (2020) ar gyfer 'Coedwigaeth a thorri a thrin coed' (DDS 02) yng Nghymru oedd 1.02[30]. Ar sail hynny, rydym yn amcangyfrif bod y cynllun wedi cynhyrchu £2,492,372.16 mewn effaith gwerth ychwanegol gros net hyd yn hyn. Pe baem ni'n defnyddio yr un ffactorau ychwanegiad i'r amcangyfrif o botensial y dyfodol o tua £7.3m, byddai hyn

[28] Gwelwch dudalen 30 Canllaw Ychwanegedd.
[29] Gwelwch dudalen 36 Canllaw Ychwanegedd.
[30] SYG, Arolwg Busnes Blynyddol, Mehefin 2022.

yn gyfatebol ag effaith GYG ychwanegol net pellach o £5,767,444.53 dros y 12 mis nesaf, yn ogystal â chynrychioli GYG o tua £8.05m ar y cyd 12 mis ar ôl cwblhau'r cynllun. Byddai hyn yn gyfatebol ag adenilliad o £1.04 ar bob £1 sy'n cael ei wario (gan dybio bod y grant cyllid cyfan a ddyranwyd yn cael ei wario). Mae'r rhain, wrth gwrs, yn amcangyfrifon bras iawn a effeithir gan gafeatau fel dibyniaeth ar ragolygon, damcaniaethau, a thybiaethau bras ac maen nhw'n debygol o amcangyfrif yn rhy isel am y costau cyfan; felly dylid bod yn ofalus wrth ymdrin â nhw.

6.34 Ochr yn ochr â'r gwerth a gynhyrchwyd gan gynnydd mewn trosiant a chyflogaeth, mae hefyd werth economaidd sy'n gysylltiedig â'r effeithiau amgylcheddol a gynhyrchir gan y cynllun. Er enghraifft, mae dod ag ardaloedd newydd o goetir o dan reolaeth gynaliadwy yn un o ganlyniadau allweddol y cynllun, a dywedodd 48 y cant o'r buddiolwyr eu bod wedi gwneud hynny (gwelwch Ffigur 6.1). Mae'r gweithgaredd hwn yn allweddol o ran cynyddu gwerth y sector yng Nghymru, a gall yr economi elwa o ardaloedd o goetir oedd wedi eu gadael yn segur gynt. Cynhyrchodd Woodland Trust bapur ar fuddion economaidd coetiroedd yn 2017, oedd yn cynnwys nifer o amcangyfrifon mewn perthynas â'r gwerth economaidd a gynhyrchwyd drwy wahanol ffyrdd o ddefnyddio coedwigoedd[31]. Canfu y byddai defnyddio coedwigoedd at ddefnydd busnes (h.y. cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau gyda gwerth marchnad, fel pren) fel arfer yn achosi i'r allbwn o nwyddau coedwigaeth gynyddu o fwy na £200 y flwyddyn gyda phob hectar ychwanegol o goetir. Gwerth y cynnydd hwnnw mewn cynhyrchiad coedwigaeth yw tua £6,500 yn barhaus ar gyfradd ddisgownt o 3.5 y cant.

6.35 Hefyd, roedd adroddiad y Woodlands Trust yn amcangyfrif bod diogelu coedwigoedd a'u bioamrywiaeth gysylltiedig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol hefyd yn cynhyrchu gwerth oedd yn amrywio yn ôl y math o goetiroedd (e.e. £1,848 fesul hectar y flwyddyn ar gyfer coedwig frodorol, dail llydan, ar dir isel). Gellir cysylltu hyn â 74 y cant o'r sampl a gyfeiriodd at ostyngiad yn amodau coetiroedd gwell / gostyngiad mewn poblogaeth goed beryglus (gwelwch Ffigur 6.1). Yn ogystal, cynhyrchir gwerth o liniaru'r newid hinsawdd hefyd, a chanfu adroddiad 2017 bod

[31] 'The economic benefits of woodland: A report for the Woodlands Trust prepared by Europe Economics' (woodlandtrust.org.uk), Ionawr 2017.

gwerth y carbon deuocsid sydd wedi'i gloi yng nghoetiroedd y DU oddeutu £16,000 yr hectar ar sail y pris carbon swyddogol ar y pryd — mae hyn yn cysylltu â'r 16 y cant o fusnesau a nododd eu bod wedi datblygu gweithredoedd meithrinfa goed newydd o ganlyniad i'r cymorth.

6.36 Yn anffodus, dim ond data am gyfanswm cyfan y coetiroedd a reolir gan fuddiolwyr sydd gennym, nid am yr ardal newydd o goetir a reolir neu a greir, ac felly nid yw'n gallu mesur effaith economaidd y gweithgaredd hwn. Fodd bynnag, mae hyn yn dangos y bydd adenilliad economaidd y CBBP yn llawer uwch na'r amcangyfrif ar sail trosiant pan ystyrir yr holl effeithiau amgylcheddol hefyd.

**Ffit strategol**

6.37 Roedd rhanddeiliaid allanol a'r tîm cyflawni hefyd yn teimlo bod angen cryf i'r cynllun fuddsoddi mewn isadeiledd ac arloesi a chadw gwerth y gadwyn gyflenwi yng Nghymru (er nad yw'n glir a yw'r olaf wedi ei gyflawni). Soniodd un o aelodau'r tîm cyflawni eu bod wedi ceisio annog "newid sylweddol" yn y diwydiant drwy annog nifer uwch o fusnesau maint canolig, ac roeddent yn teimlo eu bod wedi cyflawni hynny i ryw raddau:

> "Roedd y diwydiant wedi hollti'n glir iawn i bobl torri coed a busnesau graddfa fach. Roedd yn rhaid iddynt anelu at fynd yn fawr neu ddim ond aros yn fach. Rydym wedi ceisio lledaenu hyn allan — a chael mwy yn y canol, er mwyn caniatáu mwy o gystadleuaeth o fewn y diwydiant i yrru effeithiolrwydd, a dechrau cynhyrchu mewn ardaloedd o goed oedd wedi eu hesgeuluso fwy nag eraill." (Cyfweliad gydag Aelod o'r Tîm Cyflawni)

6.38 Fodd bynnag, aeth y sawl a gyfwelwyd ymlaen i ddweud nad oes "dim byd yn sefyll yn llonydd" ac, am fod LlC yn gwthio am fwy o goed, bydd angen i'r sector meithrinfeydd godi'r raddfa'n sylweddol, gan gynrychioli blaenoriaeth allweddol wrth symud ymlaen. Yn wir, mae prif amcanion polisi LlC yn canolbwyntio ar greu coetiroedd, ac eto ychydig iawn o feithrinfeydd sydd wedi ymgysylltu â'r CBBP, gan awgrymu bod diffyg aliniad rhwng amcanion y cynllun ac amcanion y polisi.

6.39 Yn y cyfamser, roedd y rhanddeiliaid allanol yn nodi mai prinder sgiliau a diffyg buddsoddiad tymor hir yw'r prif heriau sy'n wynebu'r sector. Er eu bod yn awgrymu

bod y CBBP wedi cyfrannu at ymdrin â'r heriau hynny, efallai bod hyn yn galw am ymyrraeth wedi'i dargedu fwy i gefnogi uwchsgilio. Er eu bod yn cefnogi parhad y cynllun, roedd rhai eisiau mwy o eglurder mewn perthynas â'i bwrpas strategol.

**Themâu Trawstoriadol**

6.40 Mae'r rheoliadau sy'n llywio'r rhaglenni Ewropeaidd yn nodi bod yn rhaid i'r holl brosiectau a ariennir drwy'r Fframwaith Strategol Cyffredin integreiddio'r Themâu Trawstoriadol (ThD) Cyfleoedd Cyfartal a Phrif Ffrydio'r Rhywiau a Datblygiad Cynaliadwy, tra bo Ymdrin â Thlodi ac Eithrio Cymdeithasol hefyd yn themâu trawstoriadol gorfodol i'r rhaglenni LlC.

6.41 Yn ogystal â'r Themâu Trawstoriadol, mae'r Rheoliadau Datblygiad Gwledig (2003-2013) yn nodi y dylai rhaglenni ac, felly, gynlluniau o dan y RhDG gyfrannu at amcanion trawstoriadol arloesi, amgylchedd ac addasu a lliniaru newid hinsawdd.

6.42 Mae darpariaeth yn erbyn datblygiad cynaliadwy, amgylchedd a lliniaru newid hinsawdd, ac amcanion a themâu arloesi yn rhan sylfaenol o gyflawni'r cynllun ei hun. Soniodd y mwyafrif llethol o fuddiolwyr am ganlyniadau amgylcheddol, fel y dywedwyd eisoes yn yr adroddiad, tra bo'r holl offer a pheiriannau a brynwyd yn gorfod bod yn newydd i'r cwmnïau hynny. Yn wir, rydym yn deall bod nifer o eitemau a brynwyd yn rhai cyntaf i gael eu defnyddio yng Nghymru ac efallai'r cyntaf yn y DU mewn rhai achosion. Rydym yn tynnu sylw at enghraifft o brosiect a ddarparodd yn erbyn y themâu amgylcheddol ac arloesi hyn yn yr astudiaeth achosisod. Nid ydym wedi enwi'r busnes am nad ydym wedi derbyn eu caniatâd i wneud hynny. Ond, tynnwyd sylw at y busnes hwn gan y tîm cyflawni fel enghraifft dda o gyflawni yn erbyn y themâu trawstoriadol hynny.

**Astudiaeth achos 1: Cwmni X**

Roedd Cwmni X wedi derbyn nifer o gannoedd o filoedd o bunnoedd mewn cyllid grant gan CBBP i brynu cynaeafwr pren gyda thechnoleg newydd sy'n gostwng effaith y gweithredoedd yn sylweddol gan ddefnyddio wyth olwyn a winsh gydamseredig fel bod y cerbyd yn gallu symud ar arwynebau serth neu fregus heb i'r olwynion greu rhychau dwfn wrth geisio sicrhau tracsiwn ar yr arwyneb. Am fod costau'r prosiect cyfan yn fwy na £800k, credir mai'r blaenyrrwr yw'r cyntaf o'r cynaeafwyr o'r math yma yng Nghymru a gallai ddringo bryniau eithriadol o serth, gan gyrchu coetiroedd oedd yn anhygyrch gynt. Hefyd, mae'r cynaeafwr wedi gwella'r galluoedd i wneud gwaith teneuo ac mae'n gallu torri pren i hyd yn fanwl gywir ar gyfer melinau llifio. Mae'r gallu i gynaeafu pren dan amodau a fyddai fel arall yn gofyn am ddefnyddio offer yn yr awyr neu dorri â'r llaw yn gostwng costau ac yn cynyddu ardaloedd y goedwig y gellir eu defnyddio ar gyfer rheoli a chynaeafu.

Mae gweithredu'r peiriannau arbenigol ychwanegol hyn o fewn gweithredoedd y busnes wedi arwain at lai o niwed i'r tir (rhychau a difrod i'r arwyneb) ac, felly, lai o effaith ar ganopi yn ogystal â llai o debygolrwydd o niwed tymor hir ac o wynt yn chwythu i'r coetiroedd sy'n sefyll. Mae hefyd wedi arwain at echdynnu pren o werth isel ar gyfer y farchnad biomas sy'n dod i'r amlwg ac sy'n ehangu ac wedi galluogi i'r busnes gyrchu mwy o leiniau o goetir.

Mae'r galluoedd newydd wedi galluogi i'r busnes adfer, gwarchod a gwella'r ecosystemau mewn ffordd economegol. Yn ogystal, dywedir fod yr offer newydd wedi gostwng allyriadau, lefelau sŵn, a defnydd tanwydd yn sylweddol o'i gymharu â'r hyn oedd wedi cael ei ddefnyddio gynt.

6.43 Hefyd, tynnodd aelodau'r tîm cyflawni sylw at y ffordd yr oedd y prosiectau'n cyflawni yn erbyn y themâu trawstoriadol cyntaf (Cyfleoedd Cyfartal, Prif Ffrydio Rhywiau, ac Iaith Gymraeg) a'r amcan Ymdrin â Thlodi ac Eithrio Cymdeithasol am fod llawer o'r busnesau'n gweithredu mewn ardaloedd gwledig gyda diffyg cyfleoedd, tlodi mawr yn aml ac, mewn nifer o achosion, gyfran uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae'r prosiectau hyn wedi helpu i gynyddu a diogelu cyflogaeth yn yr ardaloedd hynny, gan helpu felly i ymdrin â thlodi a rhoi cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg aros yn yr ardal. Mae Astudiaeth Achos 2 yn rhoi un esiampl o hyn.

**Astudiaeth Achos 2: Hormann's Firewood**

Mae Hormann's Firewood yn fusnes teuluol wedi ei seilio ger Llanymddyfri sydd wedi bod yn cyflenwi coed tân i Sir Gaerfyrddin, Powys, a thu hwnt am fwy nag 20 mlynedd. Roedd y perchennog eisiau ehangu'r busnes ac roeddent angen gwella eu capasiti a'u cynhyrchiant er mwyn gwneud hynny. Roeddent wedi canfod bod angen yr offer a'r peiriannau a ganlyn i gyflawni eu huchelgeisiau o ran twf: tractor addas i goedwigoedd, trelyr blaenyrru, cloddiwr, torrwr coed llai, cydiwr boncyffion, melin lifio gludadwy, a blychau sychu. Roedd angen y rhain i gynyddu eu cynhyrchedd, ac i adael iddyn nhw ehangu y tu hwnt i ddim ond cyflenwi i'r farchnad ddomestig leol drwy gyflenwi pren i ddefnyddwyr adwerthu a masnachol.

Roedd cost ymlaen llaw prynu'r offer yn rhy uchel i'r busnes ac, ar ôl ymholi am fenthyciad gan eu banc, roeddent yn pryderu am y cyfraddau llog uchel.

Daeth y busnes yn ymwybodol o'r CBBP yn dilyn galwad ffôn gyda'r Comisiwn Coedwigaeth a phenderfynodd gyflwyno cais am gyllid. Dyfarnwyd £73,708 ar gyfer prosiect £184,270.

Cafodd y busnes brofiad cadarnhaol gyda'r CBBP a gallent gyflawni eu hamcanion:

"Mae'r offer newydd wedi gadael i ni dyfu'r busnes […]. Gallwn gynhyrchu llawer mwy o goed tân; er enghraifft, cyn CBBP roeddem yn cynhyrchu 500 o dunelli a nawr rydym yn cynhyrchu 1,500 o dunelli. Mae hyn wedi caniatáu i ni ehangu y tu allan i'r farchnad wresogi ddomestig a symud i mewn i werthu mewn allfeydd manwerthu ac i ddefnyddwyr masnachol sy'n defnyddio boeleri biomas. Rydym wedi amnewid coed conwydd am goetiroedd brodorol, sydd wedi cynyddu bioamrywiaeth."

Cyn y CBBP, roedd y busnes yn cyflogi un person ar sail lawn amser ac un ar sail ran amser. Yn dilyn y gefnogaeth, aethent ati i ddyblu eu cyflogaeth i ddwy swydd lawn amser a dwy ran amser, tra bo'u trosiant wedi cynyddu bron i chwe gwaith (o £55,000 i £307,000).

6.44 Nodwn, fodd bynnag, er bod y cynllun yn gallu ymdrin yn naturiol â'r themâu a'r amcanion sy'n cael eu trafod uchod, nid oeddem wedi derbyn unrhyw dystiolaeth o weithredoedd amlwg a wnaed mewn perthynas â'r themâu Prif Ffrydio Rhywiau a Chyfleoedd Cyfartal.

### Asesu gwerth am arian

6.45 Rydym yn cloi'r bennod hon drwy ystyried y gwerth am arian a gynhyrchwyd gan y cynllun, sy'n un o'r wyth cwestiwn gwerthuso allweddol. Mae cynhyrchu GaA cryf yn cysylltu'n ôl at ddarparu'r weledigaeth ac effeithiau o fewn y ddamcaniaeth newid a sefydlwyd yn ystod y cam gwerthuso cyntaf. Dyma oedd y meysydd o effaith allweddol o fewn y model:

- Rhoi cyfleoedd i fusnesau pren dyfu – mae'r dystiolaeth yn dangos bod y mwyafrif llethol o fuddiolwyr wedi tyfu ac ar gyfradd uwch na'r rhai nad ydynt yn fuddiolwyr. Maen nhw hefyd yn cysylltu llawer o hyn â'r ymyrraeth. Felly, gellir dweud bod y cynllun wedi cynhyrchu'r gwerth hwnnw.
- Gwella amodau coetiroedd yng Nghymru — roedd y mwyafrif o brosiectau'n cynnwys elfen o hyn drwy deneuo, amnewid coed conwydd am goetiroedd brodorol, defnyddio peiriannau llai dwys, ac ati. Felly, gallwn ddweud yn hyderus bod y cynllun wedi cynhyrchu gwerth cryf yn y cyswllt hwnnw.
- Dod â choetiroedd anhygyrch o dan reolaeth – roedd hon yn thema amlwg yn yr ymgynghoriad cwmpasu wrth drafod y rhesymeg y tu ôl i'r cynllun. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cyfran fawr o brosiectau wedi cynhyrchu'r canlyniad hwn, fel yr adroddwyd gan 45 y cant o fuddiolwyr, a chynrychioli felly faes arall o werth positif.
- Cynyddu cynhyrchiad pren yng Nghymru – mae'r dystiolaeth unwaith eto'n dangos bod llawer o fusnesau wedi gwneud hyn, er ei bod yn anodd mesur graddfa'r cynnydd hwnnw. Fodd bynnag, mae'r cynllun wedi cynhyrchu o leiaf rywfaint o werth mewn perthynas â hynny.
- Cadw mwy o werth y gadwyn gyflenwi yng Nghymru – mae llai o dystiolaeth o hyn. Er bod aelodau'r tîm cyflawni'n teimlo bod rhywfaint o effaith wedi bod mewn perthynas â galluogi busnesau Cymru i ddadleoli rhai o'r contractau a enillwyd gan fusnesau mewn rhannau eraill o'r DU, ni ellid cadarnhau hyn yn yr arolwg buddiolwyr.
- Darparu AoF positif – mewn termau economaidd caled ac wedi ei seilio'n gyfan gwbl ar yr amcangyfrif o drosiant, mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw'r cynllun

eto wedi cynhyrchu adenilliad positif ar y cyllid grant a ddyranwyd; ond, mae mewn sefyllfa dda i wneud hynny os bydd modd gwireddu'r potensial ar gyfer y dyfodol a ragwelir gan fuddiolwyr dros y 12 mis nesaf. Yn ogystal, mae elfen 'anhysbys' o'r effaith economaidd sy'n gysylltiedig â'r buddion amgylcheddol sy'n debygol o fod yn sylweddol, lle'r oedd y mwyafrif o fuddiolwyr wedi gwella cyflwr y coetiroedd, roedd tua hanner wedi dod â choetiroedd newydd o dan reolaeth, ac roedd 16 y cant wedi datblygu gweithredoedd meithrinfa goed newydd. O'u cymryd ynghyd, gallwn ddweud yn hyderus y bydd y CBBP wedi cynhyrchu AoF positif unwaith y bydd yr holl fanteision yn dod i'r amlwg.

- Darparu buddion amgylcheddol o gyflenwad mwy o ddeunydd crai ar gyfer diwydiannau sydd â sail fiolegol a fflora a ffawna – mae tystiolaeth i ddangos bod y canlyniadau amgylcheddol hyn wedi eu cyflawni ochr yn ochr â'r canlyniadau economaidd.
- Mae rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â natur gyfartal y cynllun, o gofio fod nifer wedi teimlo bod diffyg ymwybyddiaeth, a bod tuedd tuag at fusnesau mwy o fewn y broses ymgeisio, a bod llawer o ymgeiswyr wedi teimlo bod angen talu am gymorth ymgynghoriad preifat. Ar y llaw arall, mae'r ffaith bod y cynllun wedi gallu ennyn diddordeb amrywiaeth eang o wahanol fusnesau yn ychwanegol at y 'rhai arferol' (yn ôl y tîm cyflawni).
- I grynhoi, pe baem ni'n mynd i feirniadu'r gwerth am arian yn llwyr ar sail yr adenillion economaidd sy'n gysylltiedig â throsiant a gynhyrchwyd hyd yn hyn (gydag 19 o brosiectau'n dal i gael eu cwblhau), byddai rhywfaint o amheuaeth a ellid disgrifio'r cynllun fel un llwyddiannus. Ond, ochr yn ochr â'r gwerth economaidd oedd wedi ei gynhyrchu'n barod i fuddiolwyr, mae tystiolaeth yr arolwg yn awgrymu y bydd y cynllun yn parhau i gynhyrchu adenillion economaidd dros y flwyddyn nesaf, a allai o bosib fod yn uwch na'r hyn a wariwyd drwy gyllid grant. Yn ogystal, mae'r cynllun wedi trosoli £6.4m mewn buddsoddiad gan fusnesau ac, heb os, wedi datblygu'r gallu o fewn y sector. Mae tystiolaeth gref hefyd ei fod wedi cynhyrchu'r effeithiau a restrir uchod, yn cynnwys effeithiau amgylcheddol pwysig, sydd â gwerth economaidd sylweddol

yn gysylltiedig â nhw. O’u rhoi at ei gilydd, mae’r dystiolaeth yn dangos bod y cynllun wedi cynhyrchu gwerth am arian.

## 7. Casgliadau ac argymhellion

7.1 Mae'r gwerthusiad hwn wedi dangos, er bod nifer o heriau a phroblemau wedi codi wrth gyflawni'r CBBP, mae wedi gallu cyflawni ei gylch gwaith i raddau mawr, a'r disgwyl yw y bydd oddeutu 77 y cant o'r gyllideb grant £9m yn cael ei fuddsoddi yn y sector pren erbyn diwedd y cyfnod cyflawni. Mae wedi trosoli £6.4m mewn buddsoddiad gan fusnesau na fyddai wedi digwydd heb y cymorth, ac ar lefel ehangach mae lefel uchel o ychwanegedd wedi bod yn amlwg. Felly, heb os, mae'r cynllun wedi cynyddu'r galluoedd o fewn y sector ymhell y tu hwnt i'r hyn a fyddai wedi digwydd heb y cymorth.

7.2 Ar ben hynny, mae'r cynllun wedi arwain at dwf busnes, amrywiaethu, mynediad i farchnadoedd newydd, ac amrywiaeth o ganlyniadau amgylcheddol, ac mae'r rhan fwyaf o'r buddiolwyr yn dweud eu bod wedi gallu cyflawni'r hyn roedden nhw wedi bwriadu ei gyflawni. Llwyddodd y cynllun i ragori ar dargedau DPA ffurfiol y CE a LIC, er bod y rhain wedi bod yn gymhedrol iawn mae'n ymddangos.

7.3 O ran cynllunio a gweithredu'r cynllun, mae nifer o agweddau'r cynllun craidd wedi gweithio'n dda gyda boddhad eang â maint y grant a'r paramedrau. I'r un graddau, fodd bynnag, cafwyd rhai heriau sylweddol wrth gyflawni'r cynllun a achoswyd gan gyfuniad o ffactorau mewnol ac allanol. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â diffyg adnoddau o fewn y tîm cyflawni ochr yn ochr â diffyg hyblygedd, ac mae'r diffyg hyblygedd hwn wedi ei reoli'n rhannol gan reoliadau RhDG. Mae ffactorau allanol fel Brexit, y pandemig COVID-19 a'r rhyfel yn Wcráin wedi gwaethygu'r materion hynny.

7.4 Ymddangosodd y problemau hyn yn bennaf yn ystod y broses ymgeisio, gyda'r diffyg hyblygedd yn ogystal ag oediadau amser (a achoswyd gan dan-gyllido) a arweiniodd at y tanwariant a welwyd yn y gyllideb. Arweiniodd hefyd at lawer iawn o rwystredigaeth a phroblemau i'r ymgeiswyr, a gadwyd yn aros am fwy na blwyddyn ar y cyfan i gael cymeradwyaeth. O gyfuno hyn â'r cynnydd mewn chwyddiant, cafodd effaith sylweddol ar y cyllidebu ar gyfer prosiectau. Gallwn esbonio'r brif reswm am y diffyg mewn cyllid gan yr anallu i symud y diffyg mewn un ffenestr i'r ffenestr nesaf.

7.5 Roedd nifer o'r ymgeiswyr yn teimlo bod y broses ymgeisio yn rhy hir, cymhleth a gor-fiwrocratig, gan ei wneud yn arbennig o anodd i fusnesau llai eu cyrchu. Roedd y cymorth a roddwyd i ymgeiswyr yn ystod y broses ymgeisio ac wedyn yn gyfyngedig iawn, er gwaethaf y ffaith fod eu hangen, gyda llawer yn penderfynu talu am gymorth preifat, gan godi cwestiynau am natur gyfartal y cynllun. Yn ogystal, mewn perthynas â chydraddoldeb, mae rhywfaint o ganfyddiad o ddiffyg ymwybyddiaeth yn y sector a thueddfryd o fewn y broses werthuso tuag at fusnesau mwy.

7.6 Er bod tystiolaeth o dwf ac effaith economaidd, mae cwestiwn pwysig yn ymwneud â sut mae buddiolwyr wedi cynhyrchu'r twf hwnnw. Roedd y data a gafwyd am eu cadwyn gyflenwi'n awgrymu bod eu cystadleuaeth wedi ei seilio bron yn llwyr yng Nghymru, gyda'r perygl y byddai eu twf yn gwneud dim byd mwy na dadleoli twf busnesau Cymreig eraill. Mae hynny er gwaethaf amcan y cynllun o gadw mwy o werth y gadwyn gyflenwi yng Nghymru ac ymdrin â'r broblem fod presenoldeb bychan iawn, neu ddim presenoldeb o gwbl, gan fusnesau pren Cymreig mewn marchnadoedd y tu allan i Gymru.

7.7 Mae hyn yn cysylltu â phwynt ehangach yn ymwneud â diffyg eglurder o bosibl ynglŷn â'r hyn roedd y cynllun yn ceisio ei gyflawni, pwynt a godwyd gan randdeiliaid allanol. Rhan o'r rhesymeg oedd cadw mwy o werth y gadwyn gyflenwi yng Nghymru, ond ychydig iawn o dystiolaeth sydd o unrhyw fecanwaith penodol ar gyfer targedu'r cyllid fel hynny. Er enghraifft, doedd dim cymhelliant nag ymdrech i annog buddiolwyr i ddatblygu marchnadoedd y tu allan i Gymru; felly, mae'n ymddangos eu bod wedi cadw at y marchnadoedd y maent yn eu hadnabod ac y maent yn gyfforddus â nhw. Rhan arall o'r rhesymeg ac addasrwydd y polisi yw helpu i gefnogi creu coetiroedd, ac eto roedd y grant wedi'i ogwyddo yn erbyn busnesau llai, yn cynnwys meithrinfeydd, hyd y ffenestr gyllid derfynol (pan wnaed newid).

7.8 Roedd gan y cynllun gylch gwaith eang iawn, yn ymwneud â'r mwyafrif o'r gadwyn gyflenwi ac roedd yn ceisio cyflawni yn erbyn llwyth o wahanol amcanion economaidd ac amgylcheddol. Efallai bod hyn yn ei wneud yn anodd sefydlu blaenoriaethau strategol a chreu rôl eglur ar gyfer yr ymyrraeth.

7.9 Yn gyffredinol, gall y cynllun bwyntio tuag at nifer o gyflawniadau, yn cynnwys y cynnydd mewn rheolaeth gynaliadwy ar goetiroedd yng Nghymru, twf o fewn y busnesau a gefnogir, ac effeithiau amgylcheddol. Roedd y rhanddeiliaid yn teimlo bod angen am y math hwn o gymorth wrth symud ymlaen, er y dylai ymyraethau yn y dyfodol gael hunaniaeth a chylch gwaith mwy eglur.

**Argymhellion**

7.10 Ar sail y canfyddiadau hyn, gwneir yr argymhellion a ganlyn.

- **Argymhelliad 1:** Dylai unrhyw ymyrraeth yn y dyfodol sefydlu rôl a chylch gwaith clir o'r cychwyn un sy'n alinio â'r amcanion polisi ar gyfer y sector.
- **Argymhelliad 2:** Dylai cynlluniau'r dyfodol gynnwys mecanweithiau i gymell busnesau'n well i archwilio marchnadoedd y tu allan i Gymru er mwyn sicrhau'r effeithiau gwerth ychwanegol gros gorau os mai dyna'r bwriad.
- **Argymhelliad 3:** Dylid cael dealltwriaeth fwy eglur o'r gynulleidfa darged ar gyfer ymyriadau'r dyfodol (e.e. busnesau mawr/bach), gan gynllunio'r prosesau i gydfynd â hynny.
- **Argymhelliad 4:** Dylid sicrhau gwell adnoddau ar gyfer cynlluniau'r dyfodol er mwyn osgoi oedi a tharfu, naill ai drwy sefydlu tîm cyflawni mwy neu drwy ostwng maint y rhaglen.
- **Argymhelliad 5:** Yn gysylltiedig â'r uchod, dylai cynlluniau'r dyfodol naill ai ddarparu mwy o gymorth i helpu ymgeiswyr drwy'r broses (e.e. unigolyn wedi'i enwi gyda llinell uniongyrchol) neu fod yn llai amharod i gymryd risgiau yn fewnol er mwyn symleiddio'r broses fel bod modd prosesu ceisiadau'n gyflymach.
- **Argymhelliad 6:** Gellid ystyried system haenog hefyd i wneud y broses yn fwy cymesur â'r ceisiadau am grantiau llai.
- **Argymhelliad 7:** Dylid cael un corff yn gyfrifol am oruchwylio ceisiadau drwy'r broses gyfan er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwythach.

- **Argymhelliad 8:** Dylai cynlluniau’r dyfodol gynnwys rhywfaint o hyblygrwydd yn y system i ganiatáu ar gyfer newidiadau chwyddiannol mewn costau lle mae’r amser prosesu’n hir.

## Atodiad A: Cwestiynau Cyfweliad y Tîm Cyflawni

Y perfformiad cyflawni

1. I ba raddau mae gweithrediad a chyflawniad y cynllun wedi adlewyrchu'r cynllun gwreiddiol?
    a. Pa newidiadau a wnaed, os oedd rhai?
    b. Pam wnaethpwyd newidiadau?
2. Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi gyda'r ffordd y mae'r cynllun wedi cael ei ddarparu?
    a. Beth oedd y prif gryfderau a gwendidau?
    b. Beth allai fod wedi cael ei wneud yn wahanol yn eich barn chi, os oedd unrhyw beth o gwbl?
3. Pa mor effeithiol oedd y model cyflawni yn eich barn chi?
    a. Ydych chi'n meddwl bod y penderfyniadau cynllunio cywir wedi eu gwneud mewn perthynas â maint grantiau, y gweithgareddau a'r costau cymwys, a'r gyfradd ymyrraeth?
    b. Ydych chi'n credu bod y gweithgareddau hyrwyddo cychwynnol yn effeithiol o ran cyrraedd y gynulleidfa darged a chynhyrchu digon o geisiadau?
        i. I ba raddau mae'r cynllun wedi cefnogi cyfres briodol o sefydliadau, h.y. rheiny oedd angen y cymorth grant fwyaf ac oedd wedi alinio orau ag amcanion y cynllun?
        ii. Yn eich barn chi, pa lefel o ymwybyddiaeth oedd ymysg sefydliadau cymwys, yn cynnwys unrhyw grwpiau anodd eu cyrraedd?
        iii. A oes unrhyw beth y byddech yn ei wneud yn wahanol yn y dyfodol i hyrwyddo'r cynllun?
    c. Pa mor effeithiol gafodd y prosesau ymgeisio a chymeradwyo eu darparu?
        i. A roddwyd digon o gefnogaeth i ymgeiswyr yn eich barn chi (e.e. cwestiynau cyffredin, gweithdai drwy Rwydwaith Gwledig Cymru cyfathrebiadau eraill i reoli ymholiadau)?
        ii. Ydych chi'n meddwl y dylid cael cydran gynghori fwy cynhwysfawr i gefnogi ymgeiswyr?
        iii. Pa mor arwyddocaol oedd materion fel cyfnodau rhybudd byr ar gyfer y ffenestri ymgeisio a'r systemau ar-lein a ddefnyddiwyd i ymgeisio?
            - Pa effaith gafodd y materion hyn ar gyflawniad y cynllun?
        iv. Ydych chi'n credu bod y prosiectau mwyaf priodol wedi eu dethol, h.y. rheiny oedd wedi eu halinio orau ag amcanion y cynllun?
    d. Pa mor effeithiol mae busnesau, yn cynnwys pobl yn ymgeisio am y tro cyntaf, wedi ymgysylltu drwyddo draw?
        i. Ydych chi'n meddwl y gellid gwella hyn o gwbl?
4. Pa mor effeithiol mae'r cynllun wedi cael ei reoli a'i gydlynu?
    a. A gafwyd unrhyw broblemau?
    b. Ym mha ffyrdd allai hyn gael ei wella?
    c. Ydych chi'n meddwl bod y gweithgarwch wedi cael ei fonitro'n ddigonol?
    d. Pa mor effeithiol oedd y broses hawliadau?

5. A gafodd ffactorau allanol unrhyw effaith ar gyflawni, yn cynnwys COVID-19 a Brexit?

Effeithiau

6. Beth, yn eich barn chi, oedd y prif effeithiau i'r busnesau a gefnogwyd?
7. Pa effaith mae'r cynllun wedi'i gael ar ddiwydiant pren Cymru?
    a. A ydyw wedi cynyddu cynhyrchiad?
    b. A ydyw wedi helpu i gefnogi rheolaeth gynaliadwy coetiroedd?
    c. A ydyw wedi arwain at gadw mwy o werth y gadwyn gyflenwi yng Nghymru?
    d. A ydyw wedi helpu i ymdrin â choed wedi eu heintio â chlefyd (Chalara) coed ynn?
8. I ba raddau fydd yr effeithiau hyn yn cael eu parhau ar ôl i'r cynllun ddod i ben?
9. I ba raddau mae'r CBBP wedi darparu yn erbyn y blaenoriaethau perthnasol a'r meysydd ffocws sydd wedi eu nodi yn yr RhDG?
